# Adroddiad cyfnodol ar gyfundrefn Marchnad Fewnol y DU

21 **Mawrth 2023**

**OIM10**

Office for the Internal Market

Part of the Competition and Markets Authority

## Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd

# Adroddiad Cyfnodol ar Gyfundrefn Marchnad Fewnol y DU

Cyflwynwyd i Senedd Cymru, y Senedd, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 33(6) Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd gan y deiliad hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn atom ni i OIM@cma.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3981-1

E02880714 03/23

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

*Tudalen*


Rhagair y Cadeirydd .... 3
Crynodeb Gweithredol .... 5
1. Diben a chyd-destun yr Adroddiad .... 9
Cyflwyniad .... 9
Cefndir y Ddeddf .... 9
Rhannau 1 i 3 y Ddeddf .... 10
Fframweithiau Cyffredin .... 11
Swyddogaethau cyffredinol yr OIM .... 12
Diben statudol yr adroddiad hwn .... 12
Rôl yr OIM a ffocws yr adroddiad hwn .... 13
Casglu tystiolaeth .... 14
2. Effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad .... 16
Cyflwyniad .... 16
Effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad .... 18
Trafodaethau bord gron gyda rhanddeiliaid .... 18
Ymchwil ansoddol .... 19
Ymgysylltu â'r pedair llywodraeth ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad .... 22
Monitro datblygiadau rheoliadol .... 24
Casgliad .... 25
3. Fframweithiau Cyffredin .... 28
Cyflwyniad .... 28
Canfyddiadau ar y cysylltiadau rhwng Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad .... 30
Dull dadansoddol .... 30
Eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro .... 32
Cysylltiadau rhwng Fframwaith Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) .... 34
Cysylltiadau rhwng Fframwaith Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Gwahardd trapiau glud .... 35
Cysylltiadau'r dyfodol rhwng Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad .... 36
Effaith Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU 36
Casgliad .... 39
4. Adroddiad cyfnodol – casgliad .... 42

## Rhagair y Cadeirydd

Pleser oedd cael fy mhenodi'n Gadeirydd yr OIM fis Ebrill 2022, a thros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cael y fraint o gynrychioli'r OIM, a sgwrsio gydag amrywiol sefydliadol er mwyn clywed eu barn a rhoi'r gair ar led ynghylch ein rôl.

Mae masnachu rhwng cenhedloedd y DU yn rhan angenrheidiol o'n heconomi, ac mae'n hollbwysig bod ein marchnad fewnol yn parhau i fod yn effeithiol. Yr OIM sydd â'r rôl bwysig o helpu i hwyluso hyn. Gwnawn hyn drwy ddarparu adroddiadau i'r llywodraethau ar effaith bosibl rheoliadau penodol, yn ogystal â darparu adroddiadau annibynnol ar gyfundrefn y farchnad fewnol ac ar weithrediad y farchnad fewnol, sef ffocws y ddogfen hon – ein hadroddiad cyfnodol cyntaf.

Cydnabyddwn pa mor bwysig yw casglu tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid i fod yn sail i'n gwaith, ac rydw i'n falch o fod wedi cyfrannu at hynny. Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda gweinidogion a swyddogion o bedair llywodraeth y DU. Rwyf hefyd wedi ymgysylltu â grwpiau busnes ac wedi mynychu sawl bord gron gyda busnesau, cymdeithasau masnach, academyddion, ymchwilwyr, melinau trafod ac aelodau'r proffesiwn cyfreithiol, i glywed eu barn am farchnad fewnol y DU.

Ochr yn ochr â'r adroddiad cyfnodol hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf, yn edrych ar weithrediad marchnad fewnol y DU a datblygiadau rheoliadol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein 'Map Llywio Strategaeth Ddata', sy'n nodi'r prosiectau sy'n mynd rhagddynt i lenwi'r bylchau yr ydym ni wedi'u hadnabod yn nata masnach o fewn y DU, sy'n arwain at ddadansoddiad gwell o lawer yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn falch o nodi ein bod, y mis diwethaf, wedi cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar waharddiad arfaethedig yn ymwneud â mawn i ymateb i gais i edrych ar sut all ddeddfwriaeth mawn arfaethedig effeithio ar y farchnad honno yn y DU.

Gan mai hwn yw ein hadroddiad blynyddol cyfnodol cyntaf, mae ein dealltwriaeth o'r prif ffactorau sy'n sail i gyfundrefn y farchnad fewnol yn debygol o ddatblygu gydag amser. Rydym yn croesawu adborth a mewnbwn ar yr adroddiad hwn gan randdeiliaid sydd â diddordeb.

Yn olaf, hoffwn ddiolch o galon i'r staff a'r OIM yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ehangach am eu hymdrechion a hoffwn hefyd ddiolch i bedair llywodraeth y DU am eu hymgysylltiad adeiladol ac agored, ar lefel Weinidogol a swyddogol, yn ogystal â'r busnesau, cymdeithasau masnach, arbenigwyr polisi a

chyfreithiol ac academyddion a gymerodd ran yn ein byrddau crwn a’n hymchwil ansoddol.



Murdoch MacLennan
Cadeirydd Panel Swyddfa’r Farchnad Fewnol

## Crynodeb Gweithredol

1. Yr adroddiad hwn yw adroddiad cyfnodol cyntaf Swyddfa'r Farchnad Fewnol ar y gyfundrefn a sefydlwyd dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (y Ddeddf); mae'n berthnasol i'r cyfnod 31 Rhagfyr 2020 i Fawrth 2023. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol statudol cyntaf sy'n canolbwyntio ar weithrediad marchnad fewnol y DU.

2. Ein rôl yw cynorthwyo pedair llywodraeth ar draws y DU drwy ddefnyddio arbenigedd economaidd ac arbenigedd technegol arall i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Rôl gynghorol sydd gennym, nad yw'n cynnwys gwneud penderfyniadau. O ystyried ein ffocws ar effeithiau economaidd penderfyniadau rheoliadol gwahanol ar draws cenhedloedd y DU, cydnabyddwn fod y canfyddiadau a'r materion a godwyd yn ein hadroddiadau yn debygol o gynrychioli un ystyriaeth, ymhlith eraill, pan mae llywodraeth neu ddeddfwrfa yn pennu ei hoff bolisi a'i hoff ddulliau rheoliadol.

3. Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i fodloni'r gofyniad dan adran 33(6) y Ddeddf ein bod yn paratoi adroddiad dim hwyrach na 31 Mawrth 2023 (ac o leiaf unwaith bob cyfnod o bum mlynedd wedi hynny) ar effeithiolrwydd gweithrediad Rhannau 1 i 3 y Ddeddf (y cyfeirir atynt fel 'Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad' yn yr adroddiad hwn) ac effaith yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU. Dan y Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i ni adrodd ar unrhyw ryngweithiad rhwng yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r cytundebau fframwaith cyffredin ac effaith cytundebau fframwaith cyffredin ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU.

4. Ers i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ail-afael mewn grymoedd sylweddol, gan gynyddu annibynniaeth y llywodraethau hyn i lywio eu rheoliadau eu hunain ac felly'r posibilrwydd o wahaniaethau rheoliadol sy'n dod i'r amlwg rhwng pedair cenedl y DU ar ôl Brexit.

5. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad 'cydnabyddiaeth gilyddol' a 'pheidio â gwahaniaethu' ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, ac egwyddor 'cydnabyddiaeth awtomatig' ar gyfer cymwysterau proffesiynol penodol. Rhan allweddol arall y cynllun yw cytundebau Fframwaith Cyffredin. Mae'r cytundebau hyn yn gonsensws rhwng Llywodraeth y DU ac un neu fwy o Lywodraethau Datganoledig mewn perthynas â sut fydd materion datganoledig neu drosglwyddedig a oedd yn cael eu rheoli gan gyfraith yr UE yn flaenorol yn cael eu rheoleiddio ar ôl 31 Rhagfyr 2020.

6. Ffocws yr adroddiad hwn yw'r mecanweithiau sy'n sail i weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU; sef, yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, clywsom gan nifer o randdeiliaid a gododd materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon (y Protocol). Dan y Ddeddf, nid yw ein cylch gwaith yn ymestyn i'r Protocol, ac felly ni allwn ymgymryd ag adolygiad o'r Protocol nac o'r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddo. At ddibenion ein swyddogaethau adrodd, mae Gogledd Iwerddon yn rhan o farchnad fewnol y DU, ac mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y Protocol pryd bynnag sy'n briodol.[1]

7. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi casglu tystiolaeth gan ystod eang o ffynonellau. Cynaliasom drafodaethau bord gron gydag amrywiaeth o randdeiliaid, megis busnesau a chymdeithasau masnach, academyddion, aelodau'r gymuned polisi, ac arbenigwyr cyfreithiol. Gwnaethom geisio safbwyntiau gan y pedair llywodraeth ar weithrediad ac effaith yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ac mewn perthynas â Fframweithiau Cyffredin. Gwnaethom hefyd gomisiynu ymchwil ansoddol gan ymgynghoriaeth annibynnol, Thinks Insights & Strategy (TIS), a thrwy hynny cawsom safbwyntiau busnesau sydd wedi'u lleoli ym mhob cenedl ac sy'n masnachu ar draws y DU. Gwnaethom hefyd fonitro datblygiadau rheoliadol y DU ac adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn y DU sy'n berthnasol i weithrediad marchnad fewnol y DU, a defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill drwy ffurflen ar y we.

8. Roedd ein hasesiad yn canolbwyntio ar Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn yr adroddiad cyfnodol cyntaf hwn ar eiddo. Canfuom fod ymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn isel iawn ar y cyfan ymhlith busnesau. I'r gwrthwyneb, gwelwyd yn ein trafodaethau bord gron gydag academyddion, aelodau'r gymuned bolisi, ac arbenigwyr cyfreithiol bod ymwybyddiaeth well ymhlith y rhain o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Pan eglurwyd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i fusnesau fel rhan o'n hymchwil ansoddol a gomisiynwyd, gwelodd rai botensial i'r Egwyddorion i'r Farchnad liniaru eu pryderon, ac roedd eraill yn credu y byddai'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn creu amodau masnachu 'annheg'.

9. Pryd bynnag mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, mae ansicrwydd ynghylch sut mae modd eu gweithredu ar waith oherwydd prinder cyfraith achos a'r posibilrwydd o newidiadau yn y dyfodol yn dilyn eithriadau pellach rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Drwy ein

[1] Paratowyd yr adroddiad hwn ychydig cyn cyhoeddi'r Fframwaith Windsor. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraethau i ddeall unrhyw oblygiadau Fframwaith Windsor ar gyfer ein hadroddiadau.

hymgysylltiad â’r pedair llywodraeth, awgrymwyd nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw gamau gorfodi mewn perthynas â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad.

10. Canfuom ystod o safbwyntiau ar draws llywodraethau ar effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Mynegodd Llywodraeth y DU nad oes ganddi bryderon penodol ar weithrediad yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Ystyrir Llywodraeth yr Alban bod potensial i’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad gyfyngu’r gwaith o lunio polisïau datganoledig yn nifer o feysydd. Nododd Llywodraeth Cymru nad oes digon o amser wedi bod i asesu effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Barn yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) ar gyfer Gogledd Iwerddon yw y gallai peidio â defnyddio Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer mathau penodol o nwyddau ddod yn fwy arwyddocaol yn y dyfodol.

11. Drwy ein gwaith rheolaidd o fonitro datblygiadau rheoliadol ledled y DU, adnabuom nifer o achosion lle mae llywodraethau yn ystyried sut all cynigion polisi gysylltu â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad, megis symudiad Llywodraeth yr Alban i sicrhau eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer cynhyrchion plastig untro a dechrau’r broses i gael eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer ei rheoliadau cynlluniau dychwelyd ernes, ystyriaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad mewn perthynas â’r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a chais Llywodraeth y DU i’r OIM am adroddiad ar ei gwaharddiad arfaethedig o werthu mawn a chynhyrchion sy’n cynnwys mawn yn Lloegr.

12. Ers sefydlu’r gyfundrefn gan y Ddeddf, ychydig iawn o wahaniaeth rheoliadol newydd sydd wedi bod rhwng cenhedloedd y DU. Dim ond ychydig bach o fusnesau sy’n masnachu â chenhedloedd eraill y DU a ddywedodd wrthym eu bod yn wynebu heriau oherwydd gwahaniaethau mewn rheolau neu reoliadau. Mae ymwybyddiaeth isel o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ymhlith busnesau ac absenoldeb cyfraith achos berthnasol yn awgrymu nad yw busnesau wedi gorfod dibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i gefnogi masnach oddi mewn i’r DU. Adlewyrcha hyn y ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau yn parhau i fasnachu’n rhydd ar draws y DU.

13. Gan nad yw’r defnydd o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad wedi’i brofi eto, mae’n rhy fuan asesu pa un ai a yw’r gwelliannau yn angenrheidiol, neu ar ba ffurf ar y gwelliannau fod. Disgwyliwn ymgymryd ag asesiad mwy cyflawn o effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn ein hadroddiad cyfnodol nesaf.

14. Adnabuom fod disgwyl i oddeutu hanner y Fframweithiau Cyffredin fod ynghlwm â’r Ddeddf. Dim ond ychydig bach o’r rhain sydd wedi’u defnyddio ar waith i ystyried datblygiadau rheoliadol sy’n debygol o ryngweithio â’r Egwyddorion

Mynediad i’r Farchnad neu sydd ag effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU. Er mai dim ond rhai cysylltiadau sydd wedi bod rhwng Fframweithiau Cyffredin a’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad hyd yn hyn, maent yn sicr wedi bod yn arwyddocaol, ac rydym wedi cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddod yn bwysicach dros amser. Wedi dweud hynny, y tu hwnt i’r rhyngweithiadau adnabyddedig, prin yw’r dystiolaeth hyd yn hyn bod Fframweithiau Cyffredin wedi’u defnyddio i ystyried datblygiadau rheoliadol sy’n debygol o gysylltu â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad neu’n cael effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU.

15. Canfuom fod gan fusnesau a chymdeithasau masnach ymwybyddiaeth isel o Fframweithiau Cyffredin. Roedd y rheini a oedd yn ymwybodol o’r Fframweithiau Cyffredin yn dynodi nad oeddent yn ymwybodol o uchelgeisiau’r llywodraeth ar gyfer Fframweithiau Cyffredin ac nad oeddent yn gwybod pa bynciau a oedd yn cael eu trafod neu ba un ai a oes cyfleoedd iddynt gyfrannu at y trafodaethau hynny. Byddem yn annog tryloywder rhwng y llywodraethau a chyda rhanddeiliaid allanol, megis busnesau a sefydliadau’r trydydd sector ynghylch datblygiadau rheoliadol y dyfodol a all gysylltu ag Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad a thorri ar draws Fframweithiau Cyffredin.

16. Mynegodd y llywodraethau i ni eu bod yn gefnogol yn gyffredinol o’r rôl y gall Fframweithiau Cyffredin ei chwarae o ran galluogi gweithrediad marchnad fewnol y DU. Canfuom fod strwythurau Fframwaith Cyffredin yn cael eu sefydlu ac yn cael eu rhoi dan brawf. Ein barn yw y gall ymgysylltiad rhanddeiliaid helpu i fod yn sail i effeithiau posibl gwahaniaethau rheoliadol ar farchnad fewnol y DU ac y byddai dull ymgysylltu rhagweithiol yn darparu cipolygon defnyddiol.

17. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau sy’n berthnasol i’r farchnad fewnol ac yn ymgysylltu â llywodraethau a rhanddeiliaid i gefnogi ein hasesiad sydd i ddod o effeithiolrwydd y gyfundrefn mewn adroddiadau cyfnodol dilynol.

# 1. Diben a chyd-destun yr Adroddiad

## Cyflwyniad

1.1. Lansiwyd Swyddfa'r Farchnad Fewnol (OIM) mis Medi 2021 i gynnig cyngor annibynnol, monitro a rhoi adroddiadau i bedair llywodraeth y DU i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

1.2. Yr adroddiad hwn yw adroddiad cyfnodol cyntaf yr OIM ar gyfundrefn marchnad fewnol y DU mewn perthynas â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a Fframweithiau Cyffredin. Paratowyd yr adroddiad i fodloni ein gofynion adrodd dan a.33(6) Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (y Ddeddf).[2]

1.3. Ym Mhennod 1, ceir cefndir yr OIM a'r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddi. Mae'n ymdrin â swyddogaethau cyffredinol yr OIM ac yn disgrifio diben statudol yr adroddiad hwn.

1.4. Ym Mhennod 2, darperir asesiad o effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

1.5. Mae Pennod 3 yn adrodd ar y cyswllt rhwng gweithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin, ac effaith y Fframweithiau Cyffredin a datblygiad marchnad fewnol y DU. Mae'n adnabod enghreifftiau cyfredol o pan mae'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi cysylltu â'r Fframweithiau Cyffredin ac effaith y Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad marchnad fewnol y DU.

### *Cefndir y Ddeddf*

1.6. Ers i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi ail-afael mewn grymoedd sylweddol, gan gynyddu annibynniaeth y llywodraethau hyn i lywio eu rheoliadau eu hunain ac felly'r posibilrwydd o wahaniaethau rheoliadol sy'n dod i'r amlwg rhwng cenhedloedd y DU ar ôl Brexit.[3]

---

[2] Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad' i gyfeirio at y darpariaethau yn Rhannau 1 i 3 y Ddeddf a defnyddir y term 'Fframweithiau Cyffredin' i gyfeirio at gytundebau fframwaith cyffredin.

[3] Mae cyfraith yr UE yn nodi fframwaith ar gyfer llywodraethu marchnad fewnol yr UE. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys safoni rhai rheolau penodol ar draws Aelodau-wladwriaethau'r UE, gosod safonau gofynnol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a, pryd bynnag sy'n angenrheidiol, fframwaith sy'n gofyn cydnabyddiaeth gan Aelod-wladwriaeth o nwyddau neu wasanaethau sy'n dod o Aelodau-wladwriaethau eraill yr UE eu bod yn bodloni safonau cenedlaethol. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, ar y cyfan, nid yw cyfyngiadau cyfraith yr UE yn

1.7. O ystyried y potensial hwn am fwy o wahaniaethau mewn rheoliadau rhwng cenhedloedd y DU, cyflwynwyd y Ddeddf gyda'r nod o sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn parhau i weithredu mor effeithiol â phosibl.[4]

1.8. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, clywsom gan nifer o randdeiliaid a gododd materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon (y Protocol). Dan y Ddeddf, nid yw ein cylch gwaith yn ymestyn i'r Protocol, ac felly ni allwn ymgymryd ag adolygiad o'r Protocol nac o'r ddeddfwriaeth wrth wraidd iddo.[5] At ddibenion ein swyddogaethau adrodd, mae Gogledd Iwerddon yn rhan o farchnad fewnol y DU,[6] ac mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y Protocol pryd bynnag sy'n briodol.

### *Rhannau 1 i 3 y Ddeddf*

1.9. Mae Rhan 1 y Ddeddf yn sefydlu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â chydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu o ran nwyddau. Ystyr yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yw os yw nwyddau yn bodloni'r gofynion rheoliadol[7] ar gyfer eu gwerthu yn un rhan o'r DU[8], gellir gwerthu'r nwyddau hynny yn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni unrhyw ofynion gwahanol sy'n berthnasol yno.[9] Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu yn golygu y gwaherddir gwahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn seiliedig ar wahanol driniaethau ar nwyddau lleol a nwyddau yn dod i mewn.[10]

1.10. Mae Rhan 2 y Ddeddf yn sefydlu Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â chydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer gwasanaethau. Ar gyfer darparwyr gwasanaethau, mae'r Ddeddf yn darparu ar

---

berthnasol mwyach i Lywodraeth y DU neu'r Llywodraethau Datganoledig, ac eithrio goblygiadau sy'n codi o Brotocol Gogledd Iwerddon. Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, roedd cyfraith yr UE yn cyfyngu i ba raddau y gallai pedair llywodraeth y DU olrhain polisïau gwahanol.

[4] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, tudalen 5: 'The purpose of the United Kingdom Internal Market Act is to preserve the United Kingdom's (UK's) internal market as powers previously exercised at European Union (EU) level return to the UK, providing continued certainty for people and businesses that they can work and trade freely across the whole of the UK'.

[5] Gweler adran 30(8) a (9) y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn ychydig cyn cyhoeddi'r Fframwaith Windsor. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraethau i ddeall unrhyw oblygiadau Fframwaith Windsor ar gyfer ein hadroddiadau.

[6] Gweler adrannau 33(1) a 58 y Ddeddf.

[7] Wedi'u cyfeirio atynt fel 'relevant requirements' yn y Ddeddf, ewch i adran 3(2) y Ddeddf sy'n diffinio 'gofynion perthnasol' at ddibenion yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol fel mae'n ymwneud â nwyddau.

[8] Cymru, yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon.

[9] Noder, er y gellir dibynnu ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol gan fusnesau i gydymffurfio'n unig â'r gofynion perthnasol yng nghenedl y DU lle caiff y nwyddau eu 'cynhyrchu' neu eu 'mewnforio iddi', gall masnachwyr gydymffurfio â chyfraith leol. Mewn geiriau eraill, nid yw'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn atal masnachwyr rhag cydymffurfio â'r gofynion perthnasol 'lleol' lle caiff y nwyddau eu gwerthu (gweler adran 14 y Ddeddf). Ymhellach i hynny, dylid nodi y bydd cynhyrchwyr lleol yn rhwym i ofynion perthnasol lleol.

[10] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, paragraff 18.

gyfer cydnabyddiaeth gilyddol 'gofynion awdurdodi'.[11] Mae hyn yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth, sydd wedi'i awdurdodi gan reoleiddiwr, ddarparu gwasanaeth penodol yn un rhan o'r DU, i ddibynnu ar yr awdurdodiad hwnnw er mwyn darparu'r gwasanaethau dan sylw yn rhannau eraill y DU.[12] Mae'r egwyddor peidio â gwahaniaethu ar gyfer darparwyr gwasanaeth yn golygu pan mae rhai mathau o reoliadau a orfodir yn un rhan o'r DU yn gwahaniaethu yn erbyn darparwyr gwasanaeth yn rhan arall y DU, bydd y rhannau anffafriol hyn o'r rheoliadau yn cael eu diystyru ac ni chânt unrhyw effaith.[13]

1.11. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cyflwyno system ar gyfer adnabod cymwysterau proffesiynol ledled y DU. Mae'r Ddeddf yn nodi'r 'egwyddor cydnabyddiaeth awtomatig' sy'n nodi bod preswyliwr y DU sydd wedi cymhwyso yn un rhan o'r DU yn cymhwyso'n awtomatig yn y proffesiwn dan sylw yn rhan arall y DU.[14] Mae hi hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon, dan rai amgylchiadau, i un genedl reoleiddio mewn ffordd sy'n rhoi triniaeth lai ffafriol i breswylwyr cymwys y DU o genhedloedd eraill y DU na'r driniaeth a roddir i'w phreswylwyr cymwys ei hun.[15]

***Fframweithiau Cyffredin***

1.12. Rhan allweddol arall o'r trefniadau mewn perthynas â gweithrediad marchnad fewnol y DU yw'r cwmpas ar gyfer Fframweithiau Cyffredin. Mae'r Ddeddf yn diffinio Fframwaith Cyffredin fel consensws rhwng Gweinidog y Goron ac un neu fwy o'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch sut fydd materion datganoledig neu drosglwyddedig a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfreithiau'r UE yn cael eu rheoleiddio ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Mae Fframweithiau Cyffredin fel arfer yn nodi strwythurau gwneud penderfyniadau a bodloni rhyng-llywodraethol, egwyddorion cytunedig ar gyfer ffyrdd o weithio a phroses datrys anghydfodau.

1.13. Ers 2017, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Fframweithiau Cyffredin yn rhai ardaloedd a lywodraethwyd yn flaenorol gan Gyfraith yr UE. Mae'r rhan fwyaf o'r Fframweithiau Cyffredin hyn wedi'u drafftio a'u cyhoeddi ac yn gweithredu dros dro. Mae un wedi'i gadarnhau yn dilyn archwiliad gan y senedd yn y pedair deddfwrfa.

---

[11] Gweler adran 17(3) y Ddeddf am ddiffiniad o 'ofyniad am awdurdodiad'.
[12] Gweler adran 19(1) y Ddeddf.
[13] Gweler adrannau 20 a 21 ac adran 17(4) y Ddeddf sy'n diffinio 'gofyniad rheoliadol' ar gyfer yr egwyddor peidio â gwahaniaethu fel mae'n berthnasol i wasanaethau.
[14] Gweler adran 24 y Ddeddf.
[15] Gweler adran 28 y Ddeddf.

## Swyddogaethau cyffredinol yr OIM

1.14. Ein hamcan statudol yw cefnogi, drwy gymhwyso arbenigedd economaidd a thechnegol arall, gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU, gan gyfeirio'n benodol at ddibenion yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.[16]

1.15. Mae ein prif swyddogaethau yn berthnasol i ddau gategori:

- Darparu adroddiadau (neu gyngor fel sy'n briodol) ar ddarpariaethau rheoliadol penodol ar gais Awdurdod Cenedlaethol Perthnasol (RNA).[17]
- Monitro ac adrodd ar weithrediad marchnad fewnol y DU – er enghraifft, adolygiadau ac adroddiadau yn ôl disgresiwn[18] ac adroddiadau blynyddol a statudol cyfnodol.[19]

1.16. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, ein dull yw sicrhau ein bod yn dangos tryloywder, annibynniaeth a manwl gywirdeb dadansoddol. Drwy'r Ddeddf, mae'n ofynnol i ni ymddwyn yn deg mewn perthynas â'r pedwar RNA.

1.17. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch ein rôl a'n pwerau yn ein Canllawiau Gweithredol a gyhoeddwyd fis Medi 2021 (OIM1).[20]

## Diben statudol yr adroddiad hwn

1.18. Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio rhan o'n gwaith yn monitro gweithrediad marchnad fewnol y DU, ac adrodd arni. Mae wedi'i baratoi i ryddhau'r gofyniad i baratoi adroddiad blynyddol dim hwyrach na 31 Mawrth 2023 ac o leiaf unwaith ym mhob cyfnod pum mlynedd wedi hynny ar:

- Effeithiolrwydd gweithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad (fel y nodwyd yn Rhannau 1 i 3 y Ddeddf) a'u heffaith ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU.

---

[16] Gweler adran 31(2) y Ddeddf.

[17] Mae Adran 45(6) y Ddeddf yn diffinio 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' at ddibenion Rhan 4 fel 'unrhyw un o'r canlynol – (a) yr Ysgrifennydd Gwladol; (b) Gweinidogion yr Alban; (c) Gweinidogion Cymru; (d) ac adran Gogledd Iwerddon'.
Dan adran 34 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM gynghori neu ddarparu adroddiad ar ddarpariaeth reoliadol arfaethedig; dan adran 35 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM ddarparu adroddiad ar ôl pasio neu wneud darpariaeth reoliadol; a dan adran 36 y Ddeddf, gall RNA ofyn i'r OIM ddarparu adroddiad ar ddarpariaeth reoliadol y mae'n ystyried ei bod wed cael effeithiau niweidiol ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU.

[18] Gweler adran 33(1) y Ddeddf.

[19] Gweler adrannau 33(5) a 33(6) y Ddeddf

[20] Canllawiau ar weithredu swyddogaethau Marchnad Fewnol y DU y CMA.

- Y cysylltiad rhwng yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin hynny, ac effaith y Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU.

1.19. Gan mai'r adroddiad hwn yw ein hadroddiad cyfnodol cyntaf ers i gyfundrefn marchnad fewnol y DU ddod i rym, mae ein hasesiad ar weithrediad y gyfundrefn mewn perthynas â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 31 Rhagfyr 2020 a Mawrth 2023.

1.20. Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol 2022-2023 ochr yn ochr â'r adroddiad cyfnodol hwn, yn ymdrin â gweithrediad marchnad fewnol y DU a'r datblygiadau sy'n effeithio ar ei heffeithiolrwydd.[21]

### *Rôl yr OIM a ffocws yr adroddiad hwn*

1.21. Ein nod yw cynorthwyo pedair llywodraeth y DU drwy ddefnyddio arbenigedd economaidd a thechnegol arall i gefnogi gweithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Rôl gynghorol sydd gennym, nad yw'n cynnwys gwneud penderfyniadau. O ystyried ein ffocws ar effeithiau economaidd penderfyniadau rheoliadol gwahanol ar draws cenhedloedd y DU, cydnabyddwn fod y canfyddiadau a'r materion a godwyd yn ein hadroddiadau yn debygol o gynrychioli un ystyriaeth, ymhlith eraill, pan mae llywodraeth neu ddeddfwrfa yn pennu ei hoff bolisi a'i hoff ddulliau rheoliadol.

1.22. Ffocws yr adroddiad hwn yw'r mecanweithiau sy'n sail i weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU; sef, Rhannau 1 i 3 y Ddeddf, sy'n sefydlu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, a'r Fframweithiau Cyffredin. Mae paragraffau 1.25 i 1.34 pennod 1 adroddiad blynyddol 2022-2023 yn nodi ein safbwynt am y ffactorau sy'n berthnasol i 'weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU'. Mae cefndir polisi y Ddeddf yn awgrymu y dylai ein hadroddiadau cyfnodol ystyried pa un ai a all fod angen gwneud gwelliannau i gyfundrefn marchnad fewnol y DU.[22] O ystyried bod cyfundrefn marchnad fewnol y DU wedi bod ar waith ers ychydig dros ddwy flynedd a'r nifer fach o wahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd sydd wedi'u hamlygu ers 31 Rhagfyr 2020, bwriad yr adroddiad cyfnodol hwn yn bennaf yw sefydlu meincnod, yn hytrach na chael canfyddiadau o bwys.

1.23. Nid yw ein rôl yn ymestyn i ystyried gwahaniaethau eraill a all godi rhwng cenhedloedd y DU (er enghraifft, mewn perthynas â materion yn ymwneud â

---

[21] Mae adroddiad blynyddol 2022-2023 yr OIM wedi'i baratoi i fodloni gofynion adran 33(5) y Ddeddf.
[22] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, paragraff 284.

pholisi cyhoeddus), na materion yn ymwneud â pholisi economaidd ehangach. O ran ystyried ein hadroddiadau, mae'n bwysig cydnabod y cyd-destun polisi y mae llywodraethau yn gweithredu ynddo. Gall llywodraethau wneud ymyrraethau polisi am nifer o resymau a all, yn ei dro, arwain at wahaniaethau yn rheoliadau yn dod i'r amlwg rhwng cenhedloedd y DU. Gall y gweithredoedd hyn gynnwys ymyrraethau i fynd i'r afael â mater penodol yn ymwneud ag amgylchiadau'r genedl honno (i fynd i'r afael ag anghenion iechyd y boblogaeth leol, er enghraifft), neu weithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol ehangach (i fynd i'r afael â blaenoriaethau amgylcheddol, er enghraifft).

1.24. Gall gwahaniaethau mewn rheoliadau hefyd arwain at arloesedd gwerthfawr mewn llunio polisïau – fel y nodwyd yn Fframwaith Cyffredin Dros Dro Adnoddau a Gwastraff, mae'r gallu i addasu yn cael ei gadw'n unol â'r trefniadau datganoledig, gan gydnabod y gall addasu gyflwyno buddion allweddol, megis hyrwyddo safonau uwch a chynhyrchu arloesedd a safonau gwell, a chymryd i ystyriaeth ei effaith ar weithrediad marchnad fewnol y DU.[23] Er enghraifft, Llywodraeth yr Alban oedd y cyntaf i gyflwyno gwaharddiad ysmygu yn y DU, a Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf i gyflwyno tâl ar fagiau plastig untro. Rhoddodd y polisïau llwyddiannus hyn gyfleoedd i genhedloedd eraill y DU weld y polisïau ar waith cyn gwneud eu penderfyniadau eu hunain i weithredu deddfwriaeth gyffelyb.[24]

1.25. Yn yr un modd â'n holl waith arall, mae angen ystyried ein ffocws ar ffactorau economaidd yng nghyd-destun penderfyniadau polisi cyhoeddus llywodraethau, gan gynnwys y modd mae llywodraethau yn ystyried costau (nad oes modd eu mesur yn aml) a buddion dewisiadau polisi.

### *Casglu tystiolaeth*

1.26. Rydym wedi tynnu ar ystod eang o dystiolaeth wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn. Casglom wybodaeth drwy bedair trafodaeth bord gron gydag amrywiaeth o randdeiliaid. Ffocws y trafodaethau gyda busnesau a chymdeithasau masnach oedd adnabod sectorau sy'n gweld, neu'n debygol o weld, amrywiaeth o ran rheoliadau a goblygiadau hyn ar fusnesau. Yn ein trafodaethau bord gron gydag academyddion, aelodau'r gymuned polisi ac arbenigwyr cyfreithiol, roedd mwy o ffocws ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin a'u goblygiadau.

1.27. Gwnaethom ymgysylltu â llywodraethau gan ganolbwyntio ar weithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, eu cysylltiad â'r Fframweithiau Cyffredin,

---

[23] Fframwaith Cyffredin Dros Dro Adnoddau a Gwastraff, paragraff 3.1.5.
[24] Fel y gwelwyd yn Institute for Government, The United Kingdom Internal Market Act 2020, Chwefror 2021.

ac effaith y Fframweithiau Cyffredin ar farchnad fewnol y DU, ymhlith pynciau eraill.

1.28. Gwnaethom hefyd gomisiynu ymchwil ansoddol a wnaethpwyd gan ymgynghoriaeth annibynnol, Thinks Insights & Strategy (TIS). Roedd yr ymchwil hwn yn casglu safbwyntiau gan fusnesau wedi'u lleoli ym mhob cenedl y DU, mewn gwahanol sectorau, ac o feintiau amrywiol sy'n masnachu ar draws ffiniau mewnol y DU. Roedd yr ymchwil yn mynd i'r afael â phwysigrwydd masnach oddi mewn i'r DU i'w busnes, eu profiadau o addasu i wahaniaeth mewn rheoliadau, a sut allant ymateb i enghreifftiau damcaniaethol ohono a mesur eu hymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Cyhoeddir canfyddiadau'r ymchwil dan sylw ochr yn ochr â'r adroddiad cyfnodol hwn.[25]

1.29. Rydym wedi adolygu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus mewn perthynas â datblygiadau rheoliadol a all effeithio ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU. Pryd bynnag yr oedd yn berthnasol, rydym hefyd wedi defnyddio gwybodaeth gan fusnesau a rhanddeiliaid eraill drwy ffurflen we yr OIM[26] ar sut mae marchnad fewnol y DU yn gweithio. Yn ogystal, cynaliasom adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennau ac ymchwil cyhoeddedig.

1.30. Rydym yn ddiolchgar am fewnbwn y llywodraethau a'r holl randdeiliaid yr ydym wedi ymgysylltu â nhw wrth baratoi'r adroddiad hwn.

[25] Ar adeg comisiynu'r adroddiad, roedd TIS yn gweithredu fel BritainThinks.
[26] Adrodd problem gyda Marchnad Fewnol y DU.

# 2. Effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad

## Cyflwyniad

2.1 Yn y bennod hon, ceir ein hasesiad o effeithiolrwydd gweithrediad yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad a’u heffaith ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU. Bwriad yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yw sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithio drwy sefydlu dull cydlynol o ran mynediad i’r farchnad[27] a darparu sicrwydd parhaus i bobl a busnesau y gallant weithio a masnachu’n rhydd ledled y DU gyfan.’[28]

2.2 Mae’r egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn caniatáu i bobl a busnesau fasnachu heb rwystrau ychwanegol yn seiliedig ar ba genedl maent ynddi. Mae mesurau cydnabod cymwysterau proffesiynol yn caniatáu i arbenigwyr sydd wedi cymhwyso yn un rhan o bedair rhan y DU geisio’r un proffesiwn mewn rhan arall heb fod angen ail-gymhwyso os caiff gofynion newydd eu cyflwyno o ran cymwysterau neu brofiad, neu os caiff y rhai sy’n bodoli eisoes eu newid, yn unrhyw ran o’r DU.

2.3 Fel arfer, rhaid i wladwriaethau ffederal a gwladwriaethau sydd â phwerau wedi’u datganoli i’r tiriogaethau oddi mewn iddynt ymgymryd â’r dasg o reoli marchnad fewnol, sy’n cynnwys cydbwyso masnach esmwyth yn erbyn hawl yr awdurdodaethau tiriogaethol i osod eu rheolau eu hunain.[29] Er bod y gwaith o reoli marchnad fewnol y DU yn cyflwyno heriau cyffelyb, mae gwahaniaethau amlwg rhwng y dulliau a fabwysiadwyd gan wledydd eraill a’r dull a fabwysiadwyd gan gyfundrefn marchnad fewnol y DU. Er bod y Ddeddf yn mabwysiadu rhai agweddau cyffelyb ar Farchnad Sengl yr UE, megis y cysyniadau o gydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu, mae’n wahanol mewn sawl ffordd.[30] Er enghraifft, mae’r amrywiaeth o eithriadau a rhanddirymiadau sy’n berthnasol i’r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer nwyddau yn gulach na’r rheini sy’n berthnasol i’r egwyddor gyfwerth yn yr UE.[31] Dadleuwyd y bydd gan lysoedd y DU lai o ryddid na llysoedd yr UE i gymryd i

---

[27] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, paragraff 7.
[28] Nodiadau Esboniadol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, paragraff 1.
[29] Ym mhennod 1 ac Atodiad A ein hadroddiad ar Drosolwg o Farchnad Fewnol y DU, ystyriwn farchnadoedd mewnol nifer o wledydd, gan gynnwys Sbaen, Canada, Awstralia a’r Swistir.
[30] I gymharu marchnad fewnol y DU gyda marchnad fewnol yr UE, gweler Stephen Weatherill, Comparative Internal Market Law: The UK and the EU, Hydref 2021 (paywall).
[31] Mae’r pwynt hwn wedi’i nodi mewn sawl astudiaeth, er enghraifft Institute for Government, The United Kingdom Internal Market Act 2020, Chwefror 2021.

ystyriaeth y diben rheoliadol (megis diogelwch amgylcheddol) wrth ystyried gweithredu egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol y Ddeddf.[32]

2.4 Mae modd cymhwyso'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn eang a gallant ymgysylltu ystod eang o sectorau economaidd. Wedi dweud hynny, mae'r Ddeddf yn sefydlu eithriadau penodol lle nad yw'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol. Mae'r rhain yn wahanol ar gyfer pob egwyddor, ac ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Dyma'r prif eithriadau:[33]

- Gofynion statudol sy'n bodoli cyn i'r Ddeddf ddod i rym (31 Rhagfyr 2020) nad ydynt wedi'u newid wedyn.[34]
- Gwerthu nwyddau at ddiben cyflawni swyddogaeth gyhoeddus.
- Mae eithriadau penodol wedi'u nodi yn atodlenni'r Ddeddf.[35]

2.5 Mae'r Ddeddf yn addasu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau i alluogi 'mynediad diymatal' nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Yn gyffredinol, bydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol i'r nwyddau sy'n 'gymwys yng Ngogledd Iwerddon' ac ni fyddant yn cael eu cymhwyso i nwyddau nad ydynt yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon.[36] Wedi dweud hynny, nid yw'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol i nwyddau yn symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Gan fod y Protocol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ogledd Iwerddon ddilyn rheolau'r UE yn achos nwyddau yn unig, nid yw'n effeithio ar gymhwyso'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer gwasanaethau neu gymwysterau proffesiynol i fasnachu rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr mewn unrhyw gyfeiriad.

---

[32] Kenneth A. Armstrong, Evidence submitted to the Constitution, Europe, External Affairs and Culture Committee of the Scottish Parliament, Ionawr 2022.

[33] Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer eithriadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yma (er enghraifft, yng nghyd-destun y gwasanaethau, y gofynion sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth a'r rheini nad ydynt yn darparu gwasanaeth).

[34] Yn achos gwasanaethau, nid yw'r eithriad hon yn berthnasol os caiff gofyniad awdurdodi cyfatebol yn rhan arall y DU ei newid yn sylweddol ar y diwrnod y daeth y Ddeddf i rym, neu wedi hynny.

[35] Rhestra Atodlen 1 yr eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau, sy'n cynnwys rhai rheoliadau brys o ran diogelwch bwyd ac iechyd planhigion. Ychwanegwyd eithriad i Atodlen 1 i eithrio gwaharddiad Llywodraeth yr Alban ar blastigau untro rhag cwmpas yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau. Rhestra Atodlen 2 yr eithriadau i'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer gwasanaethau, sy'n cynnwys iechyd, swyddogaethau cyhoeddus, gwasanaethau cludiant a gwasanaethau cyfreithiol.

[36] Mae'r Ddeddf yn diffinio 'nwyddau cymwys yng Ngogledd Iwerddon' drwy gyfeirio at ddiffiniad nwyddau o'r fath yn The Definition of Qualifying Northern Ireland Goods (EU Exit) Regulations 2020. Mae nwyddau cymwys yng Ngogledd Iwerddon wedi'u diffinio fel unrhyw nwyddau sy'n: (1) gyfreithiol bresennol yng Ngogledd Iwerddon ac nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth tollau (ac eithrio gweithdrefnau tollau sy'n codi wrth allforio); neu, (2) yn gynhyrchion wedi'u prosesu yng Ngogledd Iwerddon.

2.6 Caiff yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad eu gorfodi gan awdurdodau cyfredol (er enghraifft, swyddogion safonau masnach) sy'n gyfrifol am reoleiddio nwyddau. Mae canllawiau statudol ar orfodi'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â nwyddau wedi'u cyhoeddi i'r awdurdodau perthnasol ledled y DU.[37]

## Effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad

***Trafodaethau bord gron gyda rhanddeiliaid***

2.7 Cynaliasom gyfres o drafodaethau bord gron i ddeall safbwyntiau rhanddeiliaid ar weithrediad effeithiol marchnad fewnol y DU a'r modd mae'r trefniadau a nodwyd yn y Ddeddf yn gweithio. Gwnaethom wahodd rhanddeiliaid sy'n meddu ar arbenigedd a phrofiad perthnasol, a gwahodd rhanddeiliaid ar wahân i fynegi diddordeb mewn mynychu drwy ein tudalen we.

2.8 Cynaliasom bedair trafodaeth bord gron: dwy gyda chymdeithasau masnach a busnesau, un gydag arbenigwyr cyfreithiol, ac un gydag academyddion ac arbenigwyr polisi. Drwy'r trafodaethau bord gron, cawsom ddealltwriaeth am bersbectif ystod eang o randdeiliaid yr oedd ganddynt ddiddordeb. Nid bwriad y trafodaethau bord gron oedd cynrychioli safbwyntiau sectorau gwahanol; yn hytrach, eu bwriad oedd darparu cyd-destun ehangach ar weithrediad cyfundrefn y farchnad fewnol.

2.9 O ystyried bod cyfundrefn marchnad fewnol y DU yn weddol newydd, roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar sectorau sy'n gweld, neu'n debygol o weld, gwahaniaethau mewn rheoliadau ac effeithiau posibl gwahaniaethau o'r fath ar gyfer busnesau. Roedd mynychwyr y trafodaethau bord gron, er eu bod yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â marchnad fewnol y DU yn fwy cyffredinol, ar y cyfan yn llai cyfarwydd â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Yn y trafodaethau bord gron gyda busnesau a chymdeithasau masnach yn benodol, roedd lefel isel o ymwybyddiaeth o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. I'r gwrthwyneb, roedd gan gyfranogwyr y trafodaethau bord gron cyfreithiol ac academaidd / polisi ymwybyddiaeth well o oblygiadau'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

2.10 Nododd cyfranogwyr y drafodaeth bord gron gyfreithiol fod diffyg cyfreitha hyd yn hyn mewn perthynas â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a mynegasant

[37] Nid yw'r Ddeddf yn creu cyrff, pwerau na chosbau gorfodi newydd. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar ddarpariaethau gorfodi mewn rheoliadau cyfredol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi canllawiau statudol ynghylch gweithrediad ymarferol yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau, a'u heffaith: Trade in goods: guidance for enforcement authorities on complying with the UK Internal Market Act 2020.

y gall cymdeithasau masnach neu fusnesau mwy fod yn fwy tebygol o ysgogi unrhyw gyfreitha.[38] Dywedodd y cyfranogwyr wrthym, yn absenoldeb cyfraith achos, y byddai ansicrwydd mewn perthynas â sut fyddai'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn rhyngweithio gyda pholisïau penodol a'u bod yn teimlo y gall busnesau llai ystyried cyfreitha yn seiliedig ar y ffaith bod yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn gostus ac yn beryglus. Gwnaethant hefyd nodi eu bod, hyd yn hyn, wedi ystyried gweithredu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â nwyddau ffisegol drwy sianelau dosbarthu traddodiadol yn bennaf (h.y., heb fod ar-lein).

2.11 Ceisiodd arbenigwyr academaidd a pholisi gael mwy o hyblygrwydd i greu eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, gan nodi'r cyswllt ag annibynniaeth polisi'r Llywodraethau Datganoledig.[39] Yn ogystal, pwysleisiodd y cyfranogwyr y telerau manwl y mae'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi'u nodi ynddynt a rhybuddio yn erbyn ychwanegu rhagor o fanylion mewn deddfwriaeth, yn enwedig heb gyfreitha i ddynodi effaith ymarferol yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

2.12 Awgrymodd rai rhanddeiliaid o felinau trafod a'r byd academaidd y gallai'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad rwystro'r Llywodraethau Datganoledig rhag ceisio nodau'r polisi a all arwain at wahaniaeth rheoliadol.[40]

### *Ymchwil ansoddol*

2.13 I gasglu rhagor o dystiolaeth gan ystod o fusnesau i gefnogi datblygiad ein hadroddiadau statudol, gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol gan TIS, ymgynghoriaeth dealltwriaeth a strategaeth. Roedd yr ymchwil hwn yn golygu cynnal 45 cyfweliad manwl a phedair sesiwn gweithdy gyda busnesau sy'n masnachu ar draws ffiniau'r DU.

2.14 Cafodd y grŵp sampl eu dewis mewn perthynas â thri pharamedr: yn ôl cenedl, yn ôl maint ac yn ôl sector, gyda ffocws ar amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu,

---

[38] Yn ôl rhai arbenigwyr cyfreithiol, mae cyfreitha yn ymwneud â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ac mae'r gofyniad rheoliadol cenedlaethol yn debygol o ddod yn ffaith, gweler Kenneth A. Armstrong, The Governance of Economic Unionism after the United Kingdom Internal Market Act, Tachwedd 2021.
[39] Mae dadleuon cyffelyb wedi'u gwneud mewn sawl astudiaeth, megis Michael Dougan, Jo Hunt, Nicola McEwen, Aileen McHarg, Sleeping with an elephant: devolution and the United Kingdom Internal Market Act 2020, Ionawr 2022; Stephen Weatherill, Will the United Kingdom survive the United Kingdom Internal Market Act?, Mawrth 2021.
[40] Mae sawl astudiaeth wedi nodi'r posibilrwydd o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn rhwystro amrywiaeth o ran polisi gan y Llywodraethau Datganoledig, gweler yr Institute for Government, The United Kingdom Internal Market Act 2020, Chwefror 2021; Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit, UK Internal Market Bill, Medi 2020; Centre on Constitutional Change, UK Internal Market Bill, Devolution and the Union, Ionawr 2022.

bwyd a diod a manwerthu, gweithgynhyrchu ac adeiladu. Roedd y rhain ymhlith y sectorau a adnabuwyd yn Nhrosolwg o'r Adroddiad ar Farchnad Fewnol y DU yr OIM sydd â'r potensial am wahaniaethau rheoliadol a allai effeithio ar farchnad fewnol y DU. Roedd y dull hwn yn sicrhau y gallai'r ymchwilwyr fynd ati i gasglu gwybodaeth ynghylch amrywiaeth o brofiadau busnes, ar draws cenhedloedd y DU, er nad oedd yn sampl sy'n cynrychioli ystadegau.

2.15 Nod yr ymchwil oedd deall nifer o faterion, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd masnach oddi mewn i'r DU ar gyfer busnesau'r DU, ar yr ochr gyflenwi a'r ochr alw;
- Sut fyddai busnesau'r DU yn ymateb i wahaniaeth rheoliadol posibl a'r effaith y byddai hyn yn ei chael;
- Profiadau o addasu i wahaniaeth mewn rheoliadau a'r parodrwydd am newid rheoliadol yn eu sectorau;
- Lefelau ymwybyddiaeth bod yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn bodoli ac yn cael eu gweithredu, a'r effaith ar ymatebion posibl i newidiadau mewn rheoliad.

2.16 O ystyried y lefelau isel o newid rheoliadol oddi mew ni'r DU ers i'r DU adael yr UE, nodwedd bwysig ein hymchwil ansoddol oedd defnyddio 'sefyllfaoedd damcaniaethol' (senarios) i roi enghraifft ddarluniadol a chyffredinol o wahaniaeth rheoliadol oddi mewn i'r DU.

2.17 Roedd y senarios a ddefnyddiwyd yn rhai lefel uchel ond cawsant eu fframio mewn ffordd y gallai busnesau eu cysylltu â'u hamgylchiadau eu hunain. Cawsant eu cyflwyno ar ôl trafodaethau cychwynnol ynghylch masnach oddi mewn i'r DU a gwahaniaethau rheoliadol a chyn i'r cyfranogwyr gael eu cyflwyno i'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Roedd pob senario yn cyflwyno enghraifft ddamcaniaethol o wahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd y DU a busnesau:

- Senario 1: 'Yn eich busnes, mae'r prif nwydd/cynnyrch yr ydych chi'n ei weithgynhyrchu yn cynnwys ffactor penodol. Mae un genedl yn y DU yn gwahardd gwerthu nwyddau/cynhyrchion sy'n cynnwys y ffactor penodol hwn.'
- Senario 2: 'Mae un genedl yn y DU yn cyflwyno gofynion labelu newydd ar y brif nwydd/cynnyrch yr ydych chi'n ei weithgynhyrchu.'

- Senario 3: ‘Mae un genedl yn y DU yn gwahardd cyflenwi’ch gwasanaethau yn ei chenedl oni bai bod darparwyr gwasanaeth fel chi yn cydymffurfio â gofyniad newydd ac ychwanegol (rheoliadol).’

2.18 Yn ystod y cyfweliadau manwl, cafodd busnesau eu cyflwyno am y tro cyntaf i un o’r tri senario, gyda’r nod o ddeall sut allant ymateb i achosion o wahaniaethau damcaniaethol. Llwyddodd busnesau i roi awgrym da o ba senario damcaniaethol fyddai fwyaf perthnasol i’w busnes.

2.19 Yn y sesiynau gweithdy dilynol, dynododd busnesau pa senario damcaniaethol fyddai’r mwyaf perthnasol iddynt. Cafodd Senario 1 (gwaharddiad mewnforio) ei roi dan brawf gyda’r grwpiau Amaethyddiaeth ac Adeiladu a chafodd Senario 2 (labelu) ei brofi gyda’r grwpiau Gweithgynhyrchu a Bwyd a Diod. Gan mai prin yr ymgysylltwyd â Senario 3 yn y cyfweliadau manwl, cafodd ei eithrio rhag y gweithdai. Yn hytrach, roedd y gweithdai yn canolbwyntio ar yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol, gan ddefnyddio Senarios 1 a 2; aeth busnesau a ymatebodd i Senario 3 yn y cyfweliadau ati i ymateb i Senario 1 yn y gweithdai.

2.20 Nifer fach o fusnesau a awgrymodd y byddant yn rhoi’r gorau i fasnachu gyda’r genedl honno yn gyfan gwbl oherwydd bod rheoliadau gwahanol wedi’u cyflwyno. Yn yr achosion hyn, ystyrir bod yr achos damcaniaethol o wahaniaeth rheoliadol yn annhebygol o gael ei gyflwyno oherwydd yr effaith negyddol y byddai’n ei chael ar fusnesau (er enghraifft, gwahardd prif fewnbwn cynnyrch busnes). O ran cyflwyno gofynion rheoliadol newydd yn un rhan o’r DU, dywedodd y rhan fwyaf o fusnesau y byddant yn gwneud ymdrech ragweithiol i addasu i’r senario hwn drwy newid eu cynnyrch a/neu geisio cyflenwyr newydd (naill ai cyflenwr mewn cenedl wahanol yn y DU neu o’r tu hwnt i’r DU o bosibl).

2.21 Roedd ymwybyddiaeth o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn isel iawn ymhlith y busnesau yn y sampl. Cafwyd ymatebion cymysg pan gyflwynwyd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Dywedodd y rheini a oedd yn fwy pryderus am y senarios damcaniaethol a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil y gallai’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad leddfu pryderon ynghylch gwahaniaeth rheoliadol.

2.22 Serch hynny, roedd rhai busnesau yn fwy amheus gan y credant y gallai’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad achosi amodau masnachu ‘annheg’, lle fyddai busnesau sydd wedi’u lleoli yn un genedl yn y DU yn gorfod glynu wrth gyfyngiad newydd, pan allai busnesau yng nghenhedloedd eraill y DU ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i barhau i fasnachu yn yr un modd ag yr oeddent yn masnachu yn y gorffennol. Dywedodd nifer o fusnesau y byddant yn osgoi cymryd camau gweithredu cyfreithiol i ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad oherwydd y gost a’r cymhlethdod a chanlyniadau posibl i enw da a all fod ynghlwm â gweithredu o’r fath.

### *Ymgysylltu â'r pedair llywodraeth ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad*

2.23 Gwnaethom hefyd geisio safbwyntiau gan y pedair llywodraeth ar sut oedd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn gweithredu ac yn effeithio ar lunio polisïau, a pha un ai a oedd yr Egwyddorion Mynediad i'r Fasnach yn effeithiol o ran cefnogi marchnad fewnol y DU ai peidio. Rhannwyd holiadur yn canolbwyntio ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad gyda phob un o'r pedair llywodraeth.

2.24 Ymatebodd yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i'n holiadur ar ran Llywodraeth y DU. Yn dilyn ein hymgysylltiad â BEIS, symudodd swyddogaethau'r BEIS sy'n ymwneud â marchnad fewnol y DU i'r Adran Fusnes a Masnachu newydd. Roedd ein hymgysylltiad â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ynghylch yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn bennaf drwy'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA). Gwnaethom hefyd ymgysylltu ag arweinwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

2.25 Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn tueddu i ganolbwyntio ar y modd mae'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol i nwyddau. Awgrymasant hefyd fod gwahanol safbwyntiau mewn perthynas â sut mae'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn gweithredu a sut maent yn effeithio ar lunio polisïau.

2.26 Mynegodd Llywodraeth y DU nad oes ganddi bryderon penodol ar weithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a nododd fod y gwaharddiad arfaethedig ar fawn mewn cynhyrchion garddwriaethol yn Lloegr i'r OIM[41] yn enghraifft o sut mae'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi bod yn sail i ystyriaethau polisi. Yn ogystal, nododd Llywodraeth y DU y gallai cyhoeddi'r broses ar gyfer ystyried eithriadau yn y Fframwaith Cyffredin lywio penderfyniadau ar newidiadau'r dyfodol i eithriadau rhag cymhwyso'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

2.27 Cyfeiriodd Llywodraeth yr Alban at ei gwaharddiad ar eitemau plastig untro penodol yn enghraifft o sut fyddai'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi cyfyngu llunio polisïau datganoledig a chreu ansicrwydd ynghylch effaith polisi deddfwriaeth. Ei barn oedd bod angen datblygu proses ar gyfer ystyried eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i leddfu effaith yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar effeithiolrwydd ei deddfwriaeth, er nodwyd ganddynt bod y broses eithriadau yn rhoi'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau ar weithrediad deddfwriaeth datganoledig i Weinidogion y DU.

---

[41] Report on the impact of a proposed ban of the sale of horticultural peat in England on the effective operation of the UK Internal Market.

2.28 Dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'n cydnabod effaith yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Wedi dweud hynny, gan fod yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi bod ar waith ers i'r Ddeddf ddod i rym, nid oes llawer o gyfle wedi bod i asesu eu heffaith ar lunio polisïau'r pedair cenedl. Mewn perthynas â'r broses eithriadau, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cefnogi ceisiadau blaenorol am eithriadau ond ei bod yn gweld y broses yn anhwylus ac, o ran gwneud y penderfyniad terfynol, yn tueddu i fod o blaid Llywodraeth y DU.

2.29 Yn ôl DAERA, mae peidio â defnyddio'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer nwyddau yn symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn parhau i fod yn fater a allai ddod yn fwy sylweddol yn y dyfodol. Cyfeiriodd at symudiad planhigion a chynnyrch planhigion a thatws hadyd o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon yn enghreifftiau lle nad yw'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol oherwydd ei bod yn ofynnol i Ogledd Iwerddon weithredu cyfraith yr UE ar gyfer nwyddau o'r fath. Dywedodd DAERA nad yw'n ymwybodol o unrhyw faterion yn ymwneud â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â phlanhigion a chynnyrch planhigion yn symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr.[42] Er bod gofynion sy'n angenrheidiol i weithredu'r Protocol y tu hwnt i gylch gwaith yr OIM, rydym yn ystyried ei bod yn bwysig adlewyrchu'r arsylwadau hyn yn ein hadroddiad cyfnodol.[43]

2.30 Roedd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru yn adnabod y Professional Qualifications Act 2022 fel mae'n berthnasol i gydnabyddiaeth gilyddol cymwysterau proffesiynol neu driniaeth gyfartal ymarfer proffesiwn. Ni wnaeth yr ymatebion gan BEIS, Llywodraeth yr Alban na DAERA adnabod unrhyw faterion cyfredol hysbys mewn perthynas â Rhan 3 y Ddeddf.

2.31 Yn eu hymatebion i'n holiadur, dywedodd BEIS, DAERA a llywodraethau eraill nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw weithredoedd i orfodi'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad neu unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn cael eu codi gyda chyrff eraill, megis Safonau Masnach, neu'n codi o ganllawiau Llywodraeth y DU i fasnachwyr.

---

[42] Fel yr eglurwyd yng nghyflwyniad y bennod hon, mae'r Ddeddf yn addasu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad fel eu bod yn berthnasol yn unig i nwyddau sy'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr.

[43] Mae Adran 30(9) y Ddeddf yn eithrio darpariaethau sy'n cynnwys unrhyw beth sy'n angenrheidiol i weithredu'r Protocol o gwmpas swyddogaethau'r OIM.

### *Monitro datblygiadau rheoliadol*

2.32 Rydym yn monitro'n rheolaidd ymgynghoriadau cyhoeddedig y llywodraeth a gweithgarwch pob deddfwriaeth i adnabod datblygiadau rheoliadol sydd â'r potensial i effeithio ar farchnad fewnol y DU. Rydym hefyd yn ceisio deall safbwyntiau busnesau, cymdeithasau masnach a rhanddeiliaid eraill ar oblygiadau posibl y datblygiadau hyn. Adolygwn gyflwyniadau i'n ffurflen ar y we, ymgysylltwn â rhanddeiliaid a llywodraethau, fel y soniwyd uchod, ac rydym yn monitro sylw yn y cyfryngau.

2.33 Hyd yn hyn, dim ond un rhanddeiliad, sef cymdeithas fasnach, sydd wedi crybwyll yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn benodol mewn cyflwyniad i'n ffurflen we a phrin iawn yw enghreifftiau busnesau neu gymdeithasau masnach sy'n trafod yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn gyhoeddus mewn perthynas â datblygiadau penodol.

2.34 Mewn cyflwyniadau atom ni ac mewn ymatebion i ymgynghoriadau llywodraeth, mae busnesau wedi tueddu ymgysylltu'n fanwl gyda goblygiadau cynigion polisi ar gyfer masnachu rhwng cenhedloedd (a'r effaith ar eu busnes yn enwedig), heb sôn am yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Er enghraifft, soniodd busnesau sy'n ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i gyfyngu hyrwyddo bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr am y costau a'r baich gweinyddol o gyfeirio gwybodaeth wahanol at gwsmeriaid ar-lein yng ngwahanol rannau o'r DU, neu am greu apiau gwahanol ar gyfer cenhedloedd gwahanol.[44]

2.35 Mae ein gwaith yn monitro datblygiadau rheoliadol wedi adnabod nifer o enghreifftiau lle mae llywodraethau yn ystyried sut all cynigion polisi gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Ymhlith y rhain mae mesurau i wahardd eitemau plastig untro penodol, y mae Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau'r eithriad cyntaf rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer hynny, a'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl). Mae Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon am oblygiadau posibl y Bil hwn, ynghyd â'r Ddeddf, gan y gallai fod yn gyfreithlon marchnata planhigion ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl, a'r bwyd a'r porthiant sy'n deillio ohonynt, yng Nghymru a'r Alban dan yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, ni waeth beth fo'r safonau gwahanol yng Nghymru neu'r Alban. Yn ôl Llywodraeth yr Alban, mae'n ystyried y ffordd orau o atal yr effeithiau y byddai'r Bil wedi'u cael ar yr Alban.[45]

---

[44] Llywodraeth Cymru, Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Amgylchedd Bwyd Iach, Ionawr 2023.
[45] Llywodraeth yr Alban, Genetic Technology (Precision Breeding) Bill: letter to Convenor of the Rural Affairs, Islands and Natural Environment Committee, Ionawr 2023.

2.36 Ym Mhennod 3 ein hadroddiad blynyddol 2022-2023, trafodir yr enghreifftiau uchod yn fwy manwl.

## Casgliad

2.37 Mae ymwybyddiaeth o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn isel iawn ar y cyfan ymhlith busnesau. Canfuwyd hyn drwy ein trafodaethau bord gron gyda busnesau a chymdeithasau masnach a’n hymchwil ansoddol. I’r gwrthwyneb, gwelwyd yn ein trafodaethau bord gron gydag academyddion, aelodau’r gymuned bolisi, ac arbenigwyr cyfreithiol bod ymwybyddiaeth well ymhlith y rhain o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad.

2.38 Pan eglurwyd yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i fusnesau fel rhan o’n hymchwil ansoddol, gwelodd rai botensial i’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad liniaru eu pryderon, pan gyflwynwyd nhw â senarios damcaniaethol o wahaniaethau rheoliadol. Serch hynny, roedd rhai busnesau yn fwy amheus gan y credant y gallai’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad achosi amodau masnachu ‘annheg’, lle fyddai busnesau sydd wedi’u lleoli yn un genedl yn y DU yn gorfod glynu wrth reoliad newydd, pan allai busnesau yng nghenhedloedd eraill y DU ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i barhau i fasnachu yn ôl yr arfer.

2.39 Pryd bynnag mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad, mae ansicrwydd ynghylch sut mae modd eu gweithredu ar waith, gyda phrinder cyfraith achos i egluro effeithiau’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad a’r posibilrwydd o newid petai eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn cael eu cytuno. Yn ein trafodaeth bord gron gydag arbenigwyr cyfreithiol, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod unrhyw benderfyniad i gyfreitha yn fwy tebygol o gael ei wneud gan fusnes mawr neu gymdeithas fasnach sy’n ceisio sefydlu eglurdeb, yn hytrach na busnes yn ceisio defnyddio’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i amddiffyn eu hunain rhag camau gweithredu gorfodi. Yn ein hymchwil ansoddol, dywedodd busnesau eu bod yn bryderus am y gosb bosibl, y cymhlethdod a chanlyniadau i enw da sydd ynghlwm ag unrhyw weithredu cyfreithiol i ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Nid oedd unrhyw un o’r llywodraethau yn ymwybodol o unrhyw gamau gweithredu gorfodi mewn perthynas â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad.

2.40 Wrth ymgysylltu â busnesau a chymdeithasau masnach – ac yn yr ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus (er enghraifft, ymgynghoriadau yng Nghymru a’r Alban a oedd yn cynnwys cynigion i wahardd gweithgynhyrchu a gwerthu weips

gwlyb plastig)[46] – y rhagdybiaeth yw y bydd busnesau yn cydymffurfio â'r rheoliadau sydd ar waith ym mhob cenedl y DU pryd bynnag sy'n bosibl.

2.41 Drwy ymgysylltu â'r llywodraethau ynghylch effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, canfuom ystod o safbwyntiau. Mynegodd Llywodraeth y DU nad oes ganddi bryderon penodol ar weithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Ystyrir Llywodraeth yr Alban bod potensial i'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad gyfyngu'r gwaith o lunio polisïau datganoledig yn nifer o feysydd. Nododd Llywodraeth Cymru nad oes digon o amser wedi bod i asesu eu heffeithiolrwydd. Yn ôl DAERA, gallai'r ffaith nad yw'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn berthnasol i nwyddau penodol yn symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon oherwydd y Protocol ddod yn fwy sylweddol yn y dyfodol.

2.42 Rydym yn ymwybodol bod y llywodraethau yn meddwl yn ofalus sut all yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad weithio os cânt eu profi. Mae symudiad Llywodraeth yr Alban i sicrhau eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer ei rheoliadau sy'n gwahardd cynhyrchion plastig untro a dechrau'r broses i gael eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer ei rheoliadau cynlluniau dychwelyd ernes[47], ystyriaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a chais Llywodraeth y DU i'r OIM am adroddiad dan adran 34 y Ddeddf ar ei gwaharddiad arfaethedig o werthu mawn a chynhyrchion sy'n cynnwys mawn yn Lloegr i gyd yn awgrymu bod effaith bosibl yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn ystyriaeth wrth ddatblygu polisi.

2.43 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol 2022-2023, ychydig o wahaniaeth rheoliadol newydd sydd wedi bod rhwng cenhedloedd y DU ers sefydlu cyfundrefn y farchnad fewnol ac nid yw'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n masnachu yn y DU yn wynebu heriau wrth werthu i genhedloedd eraill y DU. O blith y busnesau hynny a fasnachodd gyda chenhedloedd eraill y DU, dim ond ychydig ohonynt a ddywedodd eu bod wedi wynebu heriau oherwydd gwahaniaethau yn y rheolau neu reoliadau. Yn y cyd-destun hwnnw, mae ymwybyddiaeth isel o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ymhlith busnesau ac absenoldeb cyfraith achos berthnasol yn awgrymu nad yw busnesau wedi gorfod dibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i gefnogi masnach oddi mewn i'r DU.

---

[46] Er enghraifft, mae'r Cosmetic, Toiletry and Perfumery Association (CTPA) wedi ymateb yn gyhoeddus i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban: CTPA Response to Scottish Government Single-use Plastic Items; CTPA Response to Welsh Government Consultation on Reducing Single-use Plastic.
[47] Herald Scotland, Concerns deposit return scheme will create unlawful UK trade barrier, Chwefror 2023.

Adlewyrcha hyn y ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau yn parhau i fasnachu'n rhydd ar draws y DU.

2.44 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, gan gynnwys ein gwaith rheolaidd yn monitro datblygiadau rheoliadol, nid ydym wedi adnabod tystiolaeth o newidiadau rheoliadol a all gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad fel maent yn berthnasol i wasanaethau neu gymwysterau proffesiynol. Yn yr un modd, mae'r bennod hon wedi canolbwyntio ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas â nwyddau. O ystyried nad yw'r defnydd o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad wedi'i brofi eto, mae'n rhy fuan asesu pa un ai a yw'r gwelliannau yn angenrheidiol, neu ar ba ffurf all y gwelliannau fod. Disgwyliwn ymgymryd ag asesiad mwy cyflawn o effeithiolrwydd yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn ein hadroddiad cyfnodol nesaf.

# 3. Fframweithiau Cyffredin

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn adrodd ar unrhyw gyswllt rhwng gweithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin, ac effaith y Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU.[48]

3.2 Mae Fframweithiau Cyffredin yn gytundebau anstatudol rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig i sefydlu sut fydd materion datganoledig neu drosglwyddedig a oedd yn cael eu rheoli gan gyfraith yr UE yn flaenorol yn cael eu rheoleiddio ar ôl i'r DU adael yr UE. Maent wedi'u disgrifio yn fecanweithiau arloesol i ddatblygu polisi ledled y DU drwy gydweithio a chonsensws sy'n cydnabod cyd-ddibyniaeth polisi rhwng gweinyddiaethau, a chydnabod annibynniaeth pob gweinyddiaeth yn ei maes cymwys.[49]

3.3 Yn 2017, cytunodd llywodraethau ar draws y DU ar egwyddorion i ddatblygu Fframweithiau Cyffredin drwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ('Egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion'). Mae'r egwyddorion hyn yn nodi sut fyddai llywodraethau yn adnabod y meysydd y mae Fframweithiau Cyffredin yn ofynnol ynddynt, a sut fyddai'r Fframweithiau Cyffredin yn cyd-fynd â'r tirlun cyfansoddiadol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE.[50] Er enghraifft, mae Egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn pennu y bydd y Fframweithiau yn parchu'r aneddiadau datganoledig ac atebolrwydd democratig y Llywodraethau Datganoledig, a byddant yn sicrhau cydnabyddiaeth o'r cysylltiadau economaidd a chymdeithasol rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Mae Egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yn cynnwys datganiad y bydd Fframweithiau Cyffredin yn cael eu sefydlu lle bynnag maent yn angenrheidiol er mwyn galluogi gweithrediad marchnad fewnol y DU, ymhlith pethau eraill, a chydnabod amrywiaethau mewn polisi.

3.4 Yn 2021, adnabu Swyddfa'r Cabinet 152 o feysydd o gyfraith yr UE a oedd yn torri ar draws cymhwysedd datganoledig. Aeth Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ati i adolygu'r rhain i gytuno ar 32 maes yr ystyrir bod Fframwaith Cyffredin yn angenrheidiol ar eu cyfer.[51] Cytunodd y pedair llywodraeth nad oedd angen Fframwaith Cyffredin ar gyfer 120 o feysydd oherwydd bod y risg o wahaniaethau rheoliadol yn dod i'r amlwg wedi'i asesu'n

[48] Adran 33(6)(c) a (d) y Ddeddf.
[49] The House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee, Common frameworks: building a cooperative Union, Mawrth 2021.
[50] Gweler Communiqué from the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations), Hydref 2017.
[51] Swyddfa'r Cabinet, Frameworks analysis, Tachwedd 2021.

rhy isel, y byddai effaith unrhyw wahaniaethau a oedd yn dod i'r amlwg yn fach iawn, neu fod trefniadau rhyng-llywodraethol yn eu lle i reoli unrhyw wahaniaethau. Roedd pob maes polisi yn y categori 'dim fframwaith yn ofynnol' yn parhau i fod yn agored i adolygiad.

3.5 O blith y 32 maes yr ystyrir bod Fframwaith Cyffredin yn angenrheidiol ar eu cyfer, disgwylir i 16 gysylltu â'r Ddeddf.

3.6 Ar ddyddiad cadarnhau'r adroddiad hwn, mae un Fframwaith Cyffredin (Sylweddau Peryglus: Cynllunio)[52] wedi'i gadarnhau a'i gyhoeddi. Mae 29 Fframwaith Cyffredin wedi'u cymeradwyo dros dro gan Weinidogion ar draws y pedair llywodraeth ac wedi'u rhoi ar waith.[53] O blith y rhain, mae 27 wedi'u cyhoeddi sy'n cwmpasu ystod o bynciau, gan gynnwys cyfraith cwmnïau, sylweddau ymbelydrol, labelu maeth, rheoli pysgodfeydd, cymorth amaethyddol, gwrteithiau a chemegion.[54] Mae dau faes y mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ynddynt i ddatblygu fframwaith dros dro.[55]

3.7 Mae'r Fframweithiau Cyffredin sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn yn nodi trefniadau gwaith rhyng-llywodraethol mewn maes polisi diffiniedig. Caiff cwmpas pob Fframwaith ei osod yn fanwl drwy restr o ddeddfwriaeth a chyfrifoldebau oddi mewn i'r cwmpas, a phryd bynnag sy'n berthnasol, gwybodaeth ynghylch materion sydd y tu hwnt i'r cwmpas. Mae'r trefniadau gweithio sydd wedi'u disgrifio yn y Fframweithiau Cyffredin fel arfer yn cynnwys bodloni strwythurau a phrosesau cysylltiedig ar gyfer gwneud penderfyniadau, trefniadau datrys anghydfodau, a rhannu gwybodaeth. Disgrifiant y cyd-destun deddfwriaethol domestig a rhyngwladol y mae'r strwythurau hyn yn gweithredu ynddynt. Gallant hefyd gynnwys amcanion y mae'r partïon yn dymuno eu cyflawni drwy'r fframwaith a rhoi synnwyr o'u goddefgarwch o wahaniaethau rheoliadol yn y maes polisi hwnnw.[56]

---

[52] Llywodraeth y DU, UK Common Frameworks.
[53] Adran y DU ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) a Swyddfa'r Cabinet, Policy paper on the European Union (Withdrawal) Act and Common Frameworks: 26 September to 25 December 2021, Mawrth 2022.
[54] Llywodraeth y DU, UK Common Frameworks.
[55] Y rhain oedd Fframwaith Cyffredin Cydnabyddiaeth Gilyddol Cymwysterau Proffesiynol a Fframwaith Cyffredin Gwasanaethau.
[56] Er enghraifft, mae'r Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff yn nodi y bydd y cyfle am ddull cyffredin ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a DAERA yn cael ei ystyried a'i geisio, pryd bynnag sy'n bosibl, gan gymryd i ystyriaeth buddion bob Parti, a'r effeithiau arnynt. Caiff y gallu i amrywio ei gadw'n unol â'r trefniadau datganoledig, gan gydnabod y gall addasu gyflwyno buddion allweddol, megis hyrwyddo safonau uwch a chynhyrchu arloesedd a safonau gwell, a chymryd i ystyriaeth ei effaith ar weithrediad marchnad fewnol y DU. Noda Fframwaith Cyffredin Iechyd a Llesiant Anifeiliaid fod y partïon yn cytuno i beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn ffordd sy'n gwneud drwg i fioddiogelwch, llesiant na marchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol. Rhaid i bartïon roi gwybod am benderfyniadau polisi fel bod Prif Swyddogion Milfeddygol a phenaethiaid polisi perthnasol yn gallu pennu beth sy'n 'niweidiol'.

3.8 Ar ddyddiad cadarnhau'r adroddiad hwn, mae Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau y DU yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r Fframweithiau Cyffredin. Bydd y gwerthusiad hwn yn edrych ar ba mor dda mae prosesau'r fframwaith yn gweithio, yn ogystal â chyfleoedd i wella. Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn disgwyl adroddiad ddiwedd 2023.

## Canfyddiadau ar y cysylltiadau rhwng Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad

3.9 Yn yr adran hon, rydym yn mynd ati yn gyntaf i bennu ein dull dadansoddol. Yna, rydym nodi manylion eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad (plastigau un defnydd) a oedd yn cysylltu â Fframwaith Cyffredin (y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff). Trafodwn wedyn nifer o feysydd yr ydym wedi arsylwi cysylltiad rhwng y Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn fwy cyffredinol ynddynt, sef mewn perthynas â Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a dulliau i wahardd y defnydd a/neu werthiant o drapiau glud yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Casglwn drwy ystyried yn gryno y cysylltiadau tebygol rhwng Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad dros y rhai blynyddoedd nesaf, gan gynnwys pa mor debygol yw rhagor o eithriadau ac effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

### *Dull dadansoddol*

3.10 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd ar unrhyw gysylltiad rhwng gweithrediad yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a'r Fframweithiau Cyffredin, ymhlith pethau eraill.

3.11 Wrth baratoi'r adroddiad hwn, aethom ati yn gyntaf i adnabod Fframweithiau Cyffredin a all gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, gan nodi bod sawl Fframwaith Cyffredin yn gysylltiedig â meysydd sydd wedi'u heithrio rhag y Ddeddf, fel gofal iechyd a gwasanaethau trafnidiaeth. Gwnaethom adolygu'r dadansoddiad cyhoeddedig diweddaraf o feysydd polisi sy'n gofyn am Fframwaith Cyffredin,[57] yn ogystal â'r Fframweithiau Cyffredin (dros dro) sydd wedi'u cyhoeddi ers mis Tachwedd 2020.[58]

3.12 Yn ychwanegol at y Fframwaith Cyffredin (Sylweddau Peryglus: Cynllunio) terfynol, adnabuom nifer o Fframweithiau Cyffredin dros dro ym meysydd na fyddai, yn rhannol o leiaf, wedi'u cynnwys mewn eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ac a fyddai wedi bod â'r potensial i gysylltu â masnach

---

[57] Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Frameworks analysis 2021, Tachwedd 2021.
[58] Llywodraeth y DU, UK Common Frameworks.

oddi mewn i'r DU mewn nwyddau neu wasanaethau, neu ddefnyddio cymwysterau proffesiynol. Ar waith, mae nifer o'r Fframweithiau Cyffredin hyn yn ymwneud ag amaethyddiaeth, bwyd a rheoli gwastraff. Gwnaethom rannu ein hasesiad o'r Fframweithiau Cyffredin gyda phedair llywodraeth y DU, a gytunodd ar y cyfan bod hwn yn gyfuniad synhwyrol o Fframweithiau i ganolbwyntio arnynt ar hyn o bryd.[59]

3.13 Gofynasom i'r pedair llywodraeth gwblhau holiadur er mwyn deall eu persbectif o'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin. Gofynasom pa waith sydd wedi'i wneud dan y Fframweithiau Cyffredin hyd yn hyn, pa un ai a oes unrhyw geisiadau am eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad neu geisiadau o'r fath wedi'u cymeradwyo yn dilyn cytundeb dan Fframwaith Cyffredin, a pha un ai a yw Fframweithiau Cyffredin wedi'u defnyddio fel cyfrwng ar gyfer trafod goblygiadau'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn cysylltiad â datblygiadau rheoliadol penodol.

3.14 Roedd ein prif ymgysylltiad ar Fframweithiau Cyffredin â Llywodraeth y DU drwy Defra, ac roedd ein prif ymgysylltiad â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon drwy DAERA, oherwydd cyffredinrwydd Fframweithiau Cyffredin yn ymwneud â'r amgylchedd, bwyd a materion gwledig. Gwnaethom hefyd ymgysylltu ag arweinwyr Fframweithiau Cyffredin perthnasol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

3.15 Yn ogystal, cawsom fewnbwn gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Food Standards Scotland, sydd â chyfrifoldebau yn ymwneud â Fframweithiau Cyffredin Labelu Maeth, Cyfansoddiad a Safonau, Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu, a Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant, yn ogystal â'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (sef yr Adran Fusnes a Masnach erbyn hyn), sy'n arwain y Fframweithiau Cyffredin Cydnabyddiaeth Gilyddol Cymwysterau Proffesiynol a Symiau Penodol a Nwyddau wedi'u Pecynnu.

3.16 Nodwn fod y llywodraethau wedi mynegi bod y rhan fwyaf o weithgarwch dan y Fframweithiau Cyffredin hyd yn hyn wedi bod yn waith rhyng-llywodraethol arferol[60] neu'r tu hwnt i gwmpas y Ddeddf (er enghraifft, mae'n ymwneud ag effeithiau'r Protocol), yn hytrach na thrafod gwahaniaethau rheoliadol a all

---

[59] Adnabuom y Fframweithiau Cyffredin canlynol fel rhai sy'n berthnasol i'n dadansoddiad: Iechyd a Llesiant Anifeiliaid; Cemegion a Phlaladdwyr; Gwrteithiau; Safonau Cyfansoddiad Bwyd a Labelu; Cynhyrchu Organig; Iechyd Planhigion; Amrywiaethau a Hadau Planhigion; Cyfansoddiad a Safonau Labelu Maeth; Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant; Cymorth Amaethyddol; Adnoddau a Gwastraff; Amaethyddiaeth – Sootechnegol (heb ei gyhoeddi); Symiau Penodol a Nwyddau wedi'u Pecynnu (heb ei gyhoeddi); Cydnabyddiaeth Gilyddol Cymwysterau Proffesiynol (heb ei gyhoeddi).

[60] Er enghraifft, asesu ceisiadau i ddefnyddio honiad newydd yn ymwneud â maeth neu iechyd, sy'n cael eu hystyried dan y Fframwaith Cyffredin Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Maeth.

ymgysylltu'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Serch hynny, mae rhai rhyngweithiadau sylweddol wedi bod rhwng y Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, a thrafodir y rhain yn is i lawr; sef, mewn perthynas â phlastig untro, y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a gwaharddiad ar drapiau glud.[61]

### *Eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro*

3.17 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i greu eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad er mwyn gweithredu cytundeb a gafwyd dan Fframwaith Cyffredin.[62] Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi proses ar gyfer ystyried eithriadau o'r fath, wedi'i datblygu ar y cyd â Llywodraethau Datganoledig.[63] Yn ôl Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, os caiff y broses hon ei dilyn yn unol ag Egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, gallai weithio'n effeithiol tuag at wella'r cydweithio yn yr Undeb a sicrhau parch tuag at yr aneddiadau datganoledig.'[64]

3.18 Yn y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, mae un eithriad newydd wedi'i gwneud rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad mewn perthynas ag eitemau plastig untro y cytunwyd arno dan y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff.[65] Rydym hefyd yn ymwybodol bod trafodaethau wedi'u hysgogi gan Lywodraeth yr Alban ynghylch eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad ar gyfer ei Chynllun Dychwelyd Ernes.[66] Ar ddyddiad cadarnhau'r adroddiad hwn, nid ydym yn ymwybodol o ragor o eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad.

3.19 Daeth gwaharddiad Llywodraeth yr Alban ar blastigau untro i rym ar 1 Mehefin 2022 a daeth yr eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i rym ar 12 Awst 2022.[67] Golygai hyn, o 12 Awst, na allai busnesau ddibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad i gyflenwi eitemau wedi'u gwahardd gan y

---

[61] Ceir rhagor o fanylion ynghylch y rheoliadau a'r meysydd polisi a drafodir yn y bennod hon ym mhennod 3 adroddiad blynyddol yr OIM 2022-2023.
[62] Gweler adrannau 10(3) a 18(3) y Ddeddf, ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn y drefn honno.
[63] Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Process for considering UK Internal Market Act exclusions in Common Framework areas, Rhagfyr 2021.
[64] Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Common frameworks: an unfulfilled opportunity?, Gorffennaf 2022.
[65] Roedd yr eithriad hwn yn ymwneud â chynhyrchion plastig untro a waharddwyd gan Lywodraeth yr Alban fis Mehefin 2022 yn ogystal â deddfwriaeth flaenorol yn gwahardd y cyflenwad o ffyn cotwm â choesyn plastig arnynt yn yr Alban a gwelltyn plastig, ffyn cotwm a throellwyr diodydd plastig yn Lloegr.
[66] Llywodraeth yr Alban, Letter to MSPs on Deposit Return Scheme, Chwefror 2023
[67] The United Kingdom Internal Market Act 2020 (Exclusions from Market Access Principles: Single-Use Plastics) Regulations 2022.

rheoliad yn yr Alban, os oeddent wedi'u mewnforio'n gyfreithiol i ran arall o'r DU, neu wedi'u cynhyrchu'n gyfreithiol yn rhan arall o'r DU yn gyntaf.

3.20 Cafwyd cyfnod o ychydig dros ddau fis pan oedd gwaharddiad Llywodraeth yr Alban ar waith, ond nid oedd yr offeryn statudol sy'n creu'r eithriad ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd anfodlonrwydd ymhlith rhai cyflenwyr arlwyo a oedd wedi dewis cydymffurfio â'r gwaharddiad ond yn bryderus am golli gwerthiannau i gystadleuwyr a oedd wedi parhau i gyflenwi cynhyrchion plastig rhatach.[68] Dywedodd cyflenwyr hefyd eu bod yn teimlo pwysau i roi'r gorau i werthu cynhyrchion nad ydynt yn anghyfreithlon eto. Galwasant am negeseuon clir ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei werthu'n gyfreithlon, ac o ba ddyddiad.[69]

3.21 Mae Llywodraeth yr Alban wedi codi pryderon ynghylch y cyfnod o amser y cymerwyd i gytuno ar eithriad, a bod y cwmpas wedi'i bennu gan weinidogion y DU (roedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi cefnogi eithriad ehangach).[70]

3.22 Er bod yr eithriad cyntaf rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn ymwneud â gwerthu rhai cynhyrchion plastig untro, nododd Llywodraeth yr Alban ym mis Mai 2022 ei bod yn hynod debygol y bydd angen ceisio rhagor o eithriadau yn y maes polisi hwn drwy'r broses Fframwaith Cyffredin yn y dyfodol agos.[71] Mae Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), a basiwyd gan y Senedd ar 6 Rhagfyr 2022, yn cynnig gwaharddiad ar gyflenwi bagiau plastig untro a chynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr eithriad cyfredol rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU wedi galw am dystiolaeth mewn perthynas â rhagor o gynhyrchion plastig untro, gan awgrymu bod mwy o fesurau yn debygol – boed hynny'n waharddiadau neu'n ddulliau eraill i leihau defnydd.[72]

---

[68] Press and Journal, Loophole uncovered in Scotland's single use plastics ban, Mehefin 2022 (paywall).

[69] Press and Journal, Loophole uncovered in Scotland's single use plastics ban, Mehefin 2022 (paywall).

[70] Llywodraeth yr Alban, Letter from the Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture to the Convenor on Common Frameworks, Mawrth 2022.

[71] Llywodraeth yr Alban, Letter from the Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture to the Convenor on UK Internal Market Act Exclusions Process, Mai 2022.

[72] Mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, dan y Protocol, mae Gogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i Gyfarwyddeb yr UE ar Blastigau Untro a ddaeth i rym 1 Ionawr 2022 ac mae'n ofynnol iddo gyflawni ei gofynion. Mae'r Gyfarwyddeb yn gwahardd y cyflenwad o blatiau, cyllyll a ffyrc, gwelltyn, ffyn balŵns, ffyn cotwm plastig untro, cwpanau polystyren wedi'u chwyddo a chynwysyddion bwyd, a chynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy.

### *Cysylltiadau rhwng Fframwaith Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)[73]*

3.23 Cyflwynwyd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) i'r Tŷ Cyffredin gan Lywodraeth y DU fis Mai 2022. Nod y Bil yw ei gwneud hi'n haws ac yn fwy rhwydd ceisio awdurdodiad i ddatblygu a marchnata planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u bridio'n fanwl, h.y. organebau y mae eu genynnau wedi'u haddasu i feddu ar nodweddion a allai fod wedi digwydd yn naturiol neu drwy ddulliau bridio traddodiadol.[74]

3.24 Byddai'r Bil, a fyddai'n berthnasol yn Lloegr yn unig, yn golygu bod cnydau ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl y tu hwnt i gwmpas deddfwriaeth gyfredol y DU sy'n deillio o'r UE ar reoliad Organebau Wedi'u Haddasu'n Genetig.[75] Wedi dweud hynny, gellid gwerthu cnydau ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru a'r Alban, os cânt eu hawdurdodi yn Lloegr, dan yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

3.25 Byddai'r ffaith y byddai'n ganiataol gwerthu cynhyrchion wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru a'r Alban yn cyflwyno nifer o oblygiadau. Mae Llywodraeth Cymru[76] a Llywodraeth yr Alban[77] wedi codi pryderon nad yw'r ddeddfwriaeth gynradd ddrafft yn gofyn i gynhyrchion sydd wedi'u bridio'n fanwl gael eu labelu felly, sy'n dadlau bod hyn yn effeithio ar orfodaeth ac ar allu prynwyr i wneud penderfyniadau dysgedig.[78]

3.26 Bydd cyfundrefn awdurdodi Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig yng Ngogledd Iwerddon yn parhau i ddilyn rheolau'r UE fel sy'n ofynnol gan y Protocol, ac ni cheir gwerthu cynhyrchion wedi'u bridio'n fanwl yng Ngogledd Iwerddon nes eu bod wedi'u hawdurdodi fel Organebau Wedi'u Haddasu'n Enetig dan gyfundrefn yr UE.

3.27 Deallwn fod gan y Bil y potensial i dorri ar draws (o leiaf o bosibl) pedwar Fframwaith Cyffredin dros dro: sef, Iechyd a Llesiant Anifeiliaid, Safonau

---

[73] Am ragor o fanylion ynghylch y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a'i effeithiau posibl ar farchnad fewnol y DU, gweler pennod 3 adroddiad blynyddol 2022-2023 yr OIM.

[74] Yn ôl Llywodraeth y DU, ni fydd yn cyflwyno newidiadau i reoliadau ar gyfer anifeiliaid nes bod system reoliadol gymesur yn ei lle i ddiogelu llesiant anifeiliaid. Gweler House of Commons Library briefing on the Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, tudalen 81.

[75] Gweler House of Commons Library briefing on the Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, tudalen 81.

[76] Llywodraeth yr Alban, Genetic Technologies (Precision Breeding) Bill: letter to UK Government, Mehefin 2022.

[77] Senedd Cymru, Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), Rhagfyr 2022.

[78] Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystyried sut mae darparu prynwyr â gwybodaeth ynghylch cynhyrchion sydd wedi'u cynhyrchu drwy dechnegau bridio manwl. Gweler Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Board update: The Genetic Technology (Precision Breeding) Bill, Medi 2022.

Cyfansoddol Bwyd a Labelu, Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant, a Fframweithiau Cyffredin Amrywiaethau Planhigion a Hadau.

3.28 Nodwn fod Llywodraeth Cymru[79] a Llywodraeth yr Alban[80] wedi mynegi'n gyhoeddus anfodlonrwydd gyda'r lefel o ymgysylltiad rhyng-llywodraethol a gafwyd cyn cyhoeddi'r Bil.

***Cysylltiadau rhwng Fframwaith Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Gwahardd trapiau glud***

3.29 Deallwn y gallai gwahaniaethau rhwng gwaharddiadau trapiau glud[81] yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fod yn destun trafodaeth dan Fframwaith Cyffredin Iechyd a Llesiant Anifeiliaid, ond nid yw hyn wedi'i gytuno eto. Yn y cyfamser, mae swyddogion polisi Defra wedi bod yn cwrdd â'r Llywodraethau Datganoledig fel rhan o grŵp ad-hoc.

3.30 Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi bwriad i wahardd y defnydd o drapiau glud yng Nghymru a Lloegr (gydag arbenigwyr rheoli plâu wedi'u caniatáu i wneud cais am drwydded i barhau i ddefnyddio trapiau glud yn Lloegr). Mae Llywodraeth yr Alban yn cynnig gwahardd y gwerthiant a'r defnydd o drapiau glud yn yr Alban. Nid yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi bwriad i wahardd naill ai'r gwerthiant neu'r defnydd o drapiau glud.

3.31 Dan yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, os yw trap glud yn cael ei gynhyrchu'n gyfreithiol yn y rhan o'r DU y mae hi hefyd yn gyfreithiol ei werthu (neu ei fewnforio iddi), yna gellir ei werthu yn unrhyw genedl yn y DU heb fod angen cydymffurfio ag unrhyw ofynion a orfodir yno.

---

[79] Mynegodd Gweinidog yr Amgylchedd a Diwygio Tir Llywodraeth yr Alban bryderon ynghylch trafodaethau perthnasol wedi'u hysgogi dan Fframweithiau Cyffredin ar ôl cyflwyno'r Bil, gan nodi y byddai trafodaethau ynghylch Fframwaith Cyffredin cyn cyhoeddi wedi galluogi ystyriaeth ymlaen llaw o ddargyfeiriad posibl rhag y polisi. Llywodraeth yr Alban, Genetic Technologies (Precision Breeding) Bill: letter to UK Government, Mehefin 2022.

[80] Dywedodd Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, 'I am extremely concerned that the UK Government has chosen not to work within the Common Frameworks that are in place in several of [the policy areas that interact with the Bill].' Llywodraeth Cymru, Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl): llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r Llywydd, Mehefin 2022.

[81] Bordiau bach wedi'u gorchuddio â glud cryf, nad yw'n sychu, sydd fel arfer yn cael eu defnyddio i ddal llygod mawr dan do yw trapiau glud.

***Cysylltiadau'r dyfodol rhwng Fframweithiau Cyffredin a'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad***

3.32 Dywedodd Llywodraeth yr Alban ym mis Chwefror 2023 fod y broses ffurfiol ar gyfer eithrio rheoliadau'r cynllun dychwelyd ernes rhag y Ddeddf Marchnad Fewnol yn mynd rhagddi.[82] Rydym yn ymwybodol bod trafodaethau ynghylch y broses hon yn parhau.

3.33 Ar ddyddiad cadarnhau'r adroddiad hwn, nid ydym yn ymwybodol o ragor o eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Serch hynny, mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar addasiadau a nodir yn Atodlen 2 y Ddeddf mewn perthynas â gwasanaethau.

3.34 Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig wedi cytuno lle bynnag mae Fframweithiau Cyffredin ar waith, mai nhw yw'r mecanwaith cywir ar gyfer trafod diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn y meysydd maent yn berthnasol iddynt.[83] Os caiff Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ei weithredu ar ei ffurf gyfredol, bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i swyddogion ystyried a chytuno a ddylid cadw, ailddatgan, diddymu a disodli neu ddiweddaru sawl cyfraith. Fel y cyfryw, mae potensial sylweddol i wahaniaethau rheoliadol newydd godi ym meysydd y mae'r Fframweithiau Cyffredin yn berthnasol iddynt dros y rhai blynyddoedd nesaf, y gall rhai ohonynt gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau mewn perthynas â hyn wrth iddynt ddod i'r amlwg.

## Effaith Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad a datblygiad marchnad fewnol y DU

3.35 Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd ar effaith Fframweithiau Cyffredin ar weithrediad a datblygiad y farchnad fewnol yn y DU, ymhlith pethau eraill hefyd.

3.36 Y tu hwnt i'r enghreifftiau a nodwyd uchod, rydym wedi gweld prin dystiolaeth o'r Fframweithiau Cyffredin yn chwarae rôl yn rheoli effeithiau posibl gwahaniaethau rheoliadol sy'n debygol o gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad neu gael effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU.[84] Mae hyn yn

---

[82] Herald Scotland, Concerns deposit return scheme will create unlawful UK trade barrier, Chwefror 2023.
[83] Llythyr gan Felicity Buchan AS, Gweinidog Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, i Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin yr Arglwyddi, Tachwedd 2022.
[84] Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cynharach Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Common frameworks: an unfulfilled opportunity?, Gorffennaf 2022: 'Common Frameworks are yet to be tested effectively as to whether they will still prove useful in coordinating new policy approaches between the four administrations of the UK.'

gyson â'r nifer weddol fach o wahaniaeth rheoliadol newydd a welwyd ers i'r DU ymadael â'r UE.

3.37 Fel y disgrifir ym mharagraffau 3.13 i 3.15, drwy holiadur aethom ati i gasglu safbwyntiau gan y pedair llywodraeth ar sut mae'r Fframweithiau Cyffredin yn gweithredu.

3.38 Nodwyd gan Defra bod trafodaethau'r Fframwaith Cyffredin wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion gweinyddol a gweithredol 'busnes fel arfer' oherwydd y cyfnod gweddol fyr y mae dargyfeirio sylweddol wedi bod yn bosibl. Cyfeiriodd at y potensial am gysylltiadau rhwng y Fframweithiau Cyffredin, y Ddeddf a'r Protocol i ychwanegu cymhlethdod y bydd angen ei ystyried wrth i'r cwmpas ar gyfer dargyfeirio rhag y polisi gynyddu. Gan edrych tua'r dyfodol, awgrymodd Defra efallai yr hoffa'r OIM ystyried i ba raddau mae cysylltiadau rhyng-llywodraethol ehangach wedi effeithio ar y Fframweithiau Cyffredin, adolygu gweithrediad y broses eithrio wrth iddi ddod yn fwy o ran o'r cylchred llunio polisi a chynorthwyo'r llywodraethau i ddeall beth yw gwahaniaeth rheoliadol 'niweidiol' mewn gwirionedd.

3.39 Amlinellodd Llywodraeth yr Alban ei safbwynt bod Fframweithiau Cyffredin yn darparu model cydsyniol ar gyfer rheoli dargyfeiriad sy'n ddigonol i reoli effeithiau rheoliadol ymarferol ac effeithiau ar y farchnad ym meysydd datganoledig a all fod o ganlyniad i'r DU yn gadael yr UE. Cododd bryderon fod y Ddeddf yn cyflwyno risg i weithrediad effeithiol Fframweithiau Cyffredin drwy ddweud y gallant effeithio'n negyddol ar y farchnad fewnol, yn hytrach na ffordd o alluogi swyddogaeth y farchnad fewnol drwy reoli dargyfeiriad.

3.40 Awgrymodd Llywodraeth Cymru mai dim ond ychydig bach o wahaniaeth rheoliadol y mae'r Fframweithiau Cyffredin wedi gorfod eu rheoli hyd yn hyn, ac mae'n rhy gynnar tynnu ar gasgliadau sylweddol ynghylch eu heffaith. Roedd ei hymateb yn cyfeirio'n gadarnhaol at botensial Fframweithiau Cyffredin, gan nodi eu bod yn anelu at reoli dargyfeiriad yn effeithiol a chael effaith sylweddol ar weithrediad y farchnad fewnol. Nododd Llywodraeth Cymru fod Fframweithiau Cyffredin yn cynnig lle i drafod effeithiau [cynigion polisi], ym meysydd lle mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn berthnasol, ac ym meysydd sydd wedi'u heithrio rhag cwmpas y Ddeddf drwy reoliadau, gall y llywodraethau ddefnyddio'r Fframweithiau Cyffredin i gydsynio rheolau neu osod y safonau uchaf/isaf.

3.41 Nododd DAERA fod yr holl Fframweithiau Cyffredin ym maes yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig yn weithredol dros dro ac mae strwythurau llywodraethiant yn gweithredu yn unol â'r trefniadau dros dro. Rhannodd

enghreifftiau o fforymau ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi'u creu, a sefyllfaoedd polisi penodol y cytunwyd arnynt dan y Fframweithiau Cyffredin.

3.42 Dywedodd Defra ei bod yn disgwyl cael rhagor o geisiadau am eithriadau rhag yr Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad, a dywedodd Llywodraeth yr Alban ei bod yn disgwyl y bydd angen i'r pedair llywodraeth ystyried eithriadau yn rheolaidd.

3.43 Darparodd llywodraethau enghreifftiau o Fframweithiau Cyffredin sy'n cael eu defnyddio, gan gynnwys y rhestri cyhoeddedig o honiadau maeth ac iechyd a rheoliadau a ystyriwyd dan Grŵp Polisi Fframwaith Cyffredin Dros Dro Cyfansoddiad a Safonau Labelu Maeth; [85] safleoedd cyfunol y cytunwyd arnynt dan y Fframweithiau Cyffredin Amrywiaethau Planhigion a Hadau, Iechyd Planhigion a Gwrteithiau; dulliau gwahanol i gefnogi ffermwyr moch y cytunwyd arnynt dan y Fframwaith Cyffredin Cymorth Amaethyddol; ac ymgynghoriad rhwng y pedair cenedl ynghylch cynigion labelu a chyfansoddiad mewn perthynas â bara a blawd, a gynhelir dan y Fframwaith Cyffredin Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu.[86, 87]

3.44 Mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud wrthym er y gall y Fframweithiau Cyffredin alluogi trafodaeth ynghylch effeithiau posibl gwahaniaethau rheoliadol ar unrhyw gam yn y cylchred polisi, mae ymgysylltiad rhwng llywodraethau yng ngham cynnar y broses datblygu polisi (h.y., cyn bod manylion y polisi wedi'u cadarnhau) yn bwysig os yw'r Fframweithiau Cyffredin am hwyluso cydlyniant a chytuno ar ddulliau cyffredin. Mae hyn yn adlewyrchu sylwadau a wnaethpwyd i'r Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin gan y Dirprwy Ysgrifennydd yn Swyddfa'r Cabinet, a ddywedodd ei fod yn credu'n gryf po gynharaf yr ydym yn ymgysylltu, y gorau y byddwn yn ein deddfwriaeth a'r rheoliadau[88].

3.45 Mae'r dystiolaeth o'n trafodaethau bord gron yn awgrymu er bod rhai busnesau a chyrff masnach yn ymwybodol o'r Fframweithiau Cyffredin, nid oedd y rhan fwyaf yn ymwybodol ohonynt. Dywedodd y rhanddeiliaid a oedd yn ymwybodol o'r Fframweithiau Cyffredin nad ydynt yn deall pa faterion sy'n cael eu trafod

---

[85] Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Nutrition Labelling Composition and Standards Provisional Common Framework command paper, Hydref 2020.

[86] Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig, Consultation on amending the Bread and Flour Regulations 1998 and the Bread and Flour Regulations (Northern Ireland) 1998, Medi 2022.

[87] Mae hyn yn ychwanegol at sefydlu grwpiau arbenigol annibynnol, megis y Grŵp Arbenigol ar gyfer Cynhyrchu Organig dan y Fframwaith Cyffredin Cynhyrchu Organig, parhad Fforwm Cynghori ar Iechyd Planhigion y DU dan y Fframwaith Cyffredin Iechyd Planhigion, a sefydlu pwyllgorau arbenigol gwenwyndra, mwtagenedd a charsinogenigrwydd dan y Fframwaith Cyffredin Labelu Maeth, Cyfansoddiad a Safonau.

[88] Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Cyffredin, Corrected oral evidence: Post-Brexit common frameworks, Mawrth 2022.

drwy fforymau Fframweithiau Cyffredin penodol, nac a oes cyfleoedd iddynt gyfrannu at drafodaethau o'r fath. Dywedasom wrthym hefyd nad ydynt yn deall sut mae'r Fframweithiau Cyffredin yn cyd-fynd â thirlun ehangach marchnad fewnol y DU a pha un ai a yw eu rôl a'u harwyddocad wedi newid dros amser – er enghraifft, yng ngoleuni'r Protocol a chyflwyno'r Ddeddf.

3.46 Mae busnesau wedi codi pryderon ynghylch diffyg rôl, ffurfiol neu anffurfiol, ar gyfer rhanddeiliaid anllywodraethol yn nifer o Fframweithiau Cyffredin.[89] Mae hyn wedi'i atseinio yn y dystiolaeth i ddeddfwrfeydd gan gymdeithasau masnach a sefydliadau'r trydydd sector. Canfu Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi er bod Fframweithiau Cyffredin wedi esblygu fel ffordd o gytuno ar ffyrdd o weithio rhwng y pedair llywodraeth, maent hefyd yn effeithio ar randdeiliaid ym meysydd perthnasol.[90] Roedd tystiolaeth i'r Pwyllgor yn awgrymu bod ymgysylltiad â rhanddeiliaid wedi bod yn anghyson rhwng Fframweithiau a'u bod yn aml yn brin.

3.47 Argymhellodd Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wrth i Fframweithiau Cyffredin ddod yn rhan fwy corfforedig, dylid ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd.[91] Derbyniodd Llywodraeth y DU yr argymhelliad hwn, gan gyfeirio at ddiweddariadau rheolaidd i dudalen Fframweithiau Cyffredin ar GOV.UK a chynnwys diweddariadau ar raglen y Fframweithiau Cyffredin mewn adroddiadau tryloywder cysylltiadau rhyng-llywodraethol chwarterol.[92]

## Casgliad

3.48 Cydnabyddwn fod Fframweithiau Cyffredin yn fecanwaith pwysig iawn sydd wedi'i sefydlu i gael cytundeb ar reoli dargyfeiriad rheoliadol posibl ym meysydd cymhwysedd datganoledig ar draws y cenhedloedd.[93] Er bod nifer o Fframweithiau Cyffredin (dros dro) wedi bod ar waith ers dros flwyddyn, nid yw'r rhan fwyaf o Fframweithiau wedi gorfod ystyried cynigion rheoliadol sy'n sylweddol wahanol yn y cyfnod hwn.

3.49 Er bod nifer o Fframweithiau Cyffredin ar waith, dim ond oddeutu hanner sydd wedi'u hadnabod â'r posibilrwydd o gysylltu â'r Ddeddf, a dim ond ychydig bach

---

[89] Llywodraeth yr Alban, Published responses for Common Frameworks.
[90] Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Common frameworks: an unfulfilled opportunity?, Gorffennaf 2022.
[91] Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Common frameworks: an unfulfilled opportunity?, Gorffennaf 2022.
[92] Swyddfa'r Cabinet, Government Response to the House of Lords Common Frameworks Scrutiny Committee report: 'Common Frameworks: an unfulfilled opportunity?', Tachwedd 2022.
[93] Pwyllgor Archwilio Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, Evidence session with Rachel Merelie, Senior Director of the OIM, Tachwedd 2021.

o’r rhain sydd wedi’u defnyddio ar waith i ystyried datblygiadau rheoliadol sy’n debygol o ryngweithio â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad neu sydd ag effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU.

3.50 Er bod nifer y cysylltiadau rhwng Fframweithiau Cyffredin a’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn isel hyd yn hyn, maent yn sicr wedi bod yn arwyddocaol. Gall y cysylltiadau hyn ddod yn fwyfwy pwysig dros amser. Er enghraifft, dan Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff, cafodd Llywodraeth yr Alban ei heithriad cyntaf rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer nwyddau ym mis Awst 2022. Wedi dweud hynny, y tu hwnt i’r rhyngweithiadau adnabyddedig, prin yw’r dystiolaeth hyd yn hyn bod Fframweithiau Cyffredin wedi’u defnyddio i ystyried datblygiadau rheoliadol sy’n debygol o gysylltu â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad neu’n cael effaith sylweddol ar farchnad fewnol y DU.

3.51 Mynegodd y pedair llywodraeth wrthym eu bod yn gefnogol yn gyffredinol o’r rôl y gall Fframweithiau Cyffredin ei chwarae o ran galluogi gweithrediad marchnad fewnol y DU. Mae’n bwysig bod strwythurau Fframweithiau Cyffredin yn gweithio i’r swyddogion sy’n eu defnyddio o ddydd i ddydd ac mae’r dystiolaeth sydd wedi’i rhannu gyda ni yn awgrymu bod y strwythurau hyn yn cael eu ‘hymgorffori’ ac yn cael eu rhoi dan brawf (yn yr un modd â’r broses eithriadau).

3.52 Mae ymwybyddiaeth o Fframweithiau Cyffredin ymhlith rhanddeiliaid allanol, megis busnesau a chymdeithasau masnach, yn isel. Roedd y rheini a oedd yn ymwybodol o’r Fframweithiau Cyffredin yn dynodi nad oeddent yn ymwybodol o uchelgeisiau’r llywodraeth ar gyfer Fframweithiau Cyffredin ac nad oeddent yn gwybod pa bynciau a oedd yn cael eu trafod neu a oes cyfleoedd iddynt gyfrannu at y trafodaethau hynny ai peidio.

3.53 Wrth i lywodraethau ddatblygu mwy o brofiad o’r cysylltiad rhwng Fframweithiau Cyffredin perthnasol gyda’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad, byddem yn annog tryloywder rhwng y llywodraethau a chyda rhanddeiliaid allanol, megis busnesau a sefydliadau’r trydydd sector ynghylch datblygiadau rheoliadol y dyfodol a all gysylltu ag Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad a thorri ar draws Fframweithiau Cyffredin.

3.54 Er mwyn i swyddogion polisi adnabod a rheoli effeithiau posibl gwahaniaethau rheoliadol ar farchnad fewnol y DU, mae angen dealltwriaeth dda arnynt o beth allai’r effeithiau yma fod. Gall ymgysylltiad â rhanddeiliaid helpu i fod yn sail i’r ddealltwriaeth hon. Rydym yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiweddaru’r dudalen Fframweithiau Cyffredin ar GOV.UK a chynnwys diweddariadau ar Fframweithiau Cyffredin mewn adroddiadau tryloywder rhyng-llywodraethol chwarterol. Byddai dull rhagweithiol i egluro rôl Fframweithiau Cyffredin, sut maent yn gweithredu a pha bynciau sy’n cael eu trafod ar hyn o

bryd yn cynyddu’r tebygolrwydd o randdeiliaid yn ymgysylltu’n effeithiol ac yn darparu dealltwriaethau defnyddiol.

3.55 Rydym yn eglur bod llywodraethau yn y sefyllfa orau i bennu sut mae gwneud Fframweithiau Cyffredin yn effeithiol ac rydym yn barod i gefnogi’r Fframweithiau Cyffredin ac unrhyw drafodaethau ynghylch y broses eithriadau gyda chyngor arbenigol ar effeithiau economaidd fel sy’n briodol. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau dan y Fframweithiau Cyffredin wrth i fwy o wahaniaethau rheoliadol gael eu hamlygu a disgwyliwn wneud asesiad llawnach o’u heffaith ar farchnad fewnol y DU yn ein hadroddiad cyfnodol.

## 4. Adroddiad cyfnodol – casgliad

4.1 Mae’r dasg o reoli marchnad fewnol yn golygu cydbwyso masnach esmwyth yn erbyn hawl yr awdurdodaethau tiriogaethol i osod eu rheolau eu hunain. Dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd mae cyfundrefn marchnad fewnol y DU wedi bod ar waith ac o ystyried y nifer fach o wahaniaethau rheoliadol rhwng cenhedloedd y DU sydd wedi’u hamlygu yn ystod y cyfnod hwnnw, bwriad yr adroddiad cyfnodol hwn yn bennaf yw sefydlu casgliadau pendant ynghylch effeithiolrwydd y cynllun. Yn arbennig, nid ydym wedi adnabod tystiolaeth o newidiadau rheoliadol a all gysylltu â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad fel maent yn berthnasol i wasanaethau neu gymwysterau proffesiynol.

4.2 Mae ymwybyddiaeth o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn isel iawn ar y cyfan ymhlith busnesau ac nid yw’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad wedi’u profi drwy gamau gorfodi neu gyfreitha. Gall fod yn rhesymol cymryd yn ganiataol bod y lefel isel o wahaniaeth rheoliadol newydd rhwng cenhedloedd y DU wedi’i hadlewyrchu yn yr ymwybyddiaeth isel o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad, gan nad yw busnesau wedi gorfod dibynnu ar yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad i gefnogi eu gweithgareddau masnachu. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol 2022-2023, mae rhai busnesau wedi adrodd heriau mewn masnach oddi mewn i’r DU oherwydd rheolau neu reoliadau gwahanol rhwng y cenhedloedd.

4.3 Mae llywodraethau yn meddwl yn ofalus am sut all yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad weithredu os cânt eu profi. Mae symudiad Llywodraeth yr Alban i sicrhau eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer ei rheoliadau sy’n gwahardd cynhyrchion plastig untro a dechrau’r broses i gael eithriad rhag yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad ar gyfer ei rheoliadau cynlluniau dychwelyd ernes, ystyriaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban o’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad mewn perthynas â’r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), a chais Llywodraeth y DU i’r OIM am adroddiad dan adran 34 y Ddeddf ar ei gwaharddiad arfaethedig o werthu mawn a chynhyrchion sy’n cynnwys mawn yn Lloegr i gyd yn awgrymu bod effaith bosibl yr Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn ystyriaeth wrth ddatblygu polisi.

4.4 Mae Fframweithiau Cyffredin yn rhan bwysig o’r gyfundrefn gyfan, er mai dim ond ychydig bach o’r rhain sydd wedi’u defnyddio ar waith i ystyried datblygiadau rheoliadol sy’n debygol o ryngweithio â’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad. Er bod nifer y cysylltiadau rhwng Fframweithiau Cyffredin a’r Egwyddorion Mynediad i’r Farchnad yn isel hyd yn hyn, maent yn sicr wedi bod yn arwyddocaol, ac rydym wedi cydnabod y gall rhai cysylltiadau ddod yn bwysicach dros amser.

4.5 Gall ymwybyddiaeth a sicrwydd ynghylch gweithrediad y Ddeddf a chyfaint y gweithgarwch rheoliadol a all gysylltu â'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad a Fframweithiau Cyffredin gynyddu dros amser. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau sy'n berthnasol i'r farchnad fewnol ac yn ymgysylltu â llywodraethau a rhanddeiliaid eraill i gefnogi ein hasesiad sydd i ddod o effeithiolrwydd y gyfundrefn mewn adroddiadau cyfnodol dilynol.

E02880714

978-1-5286-3981-1